Senedd Cymru
**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**

# Yr Economi Werdd

Mawrth 2025



senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddEconomi**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddEconomi@senedd.cymru**
X: **@SeneddEconomi**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2025**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**

# Yr Economi Werdd

Mawrth 2025

senedd.cymru

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
**www.senedd.cymru/SeneddEconomi**

---

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:**
**Andrew RT Davies AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Hannah Blythyn AS**
Llafur Cymru



**Hefin David AS**
Llafur Cymru



**Luke Fletcher AS**
Plaid Cymru



**Samuel Kurtz AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Jenny Rathbone AS**
Llafur Cymru

---

Mynychodd yr Aelodau a ganlyn fel dirprwyon yn ystod yr ymchwiliad hwn:



**Mick Antoniw AS**
Llafur Cymru



**Cefin Campbell AS**
Plaid Cymru

Roedd yr Aelodau a ganlyn hefyd yn aelodau o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn:



**Paul Davies AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Vikki Howells AS**
Llafur Cymru



**Buffy Williams AS**
Llafur Cymru

# Cynnwys

**Rhagair y Cadeirydd** ........ 5

**Argymhellion a Casgliadau** ........ 6

**1. Y cefndir** ........ 9

**2. Y dull strategol o ddatgarboneiddio'r economi** ........ 11

**3. Cefnogi cymunedau i elwa o'r newid i economi wyrddach** ........ 18

**4. Blaenoriaethau ynni adnewyddadwy** ........ 29

**5. Pontio teg a gwaith teg** ........ 36

**6. Sgiliau** ........ 43

**7. Ariannu'r newid sero net** ........ 54

**Atodiad 1: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar** ........ 59

**Atodiad 2: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig** ........ 61

# Rhagair y Cadeirydd

Cynhaliwyd yr ymchwiliad hwn yn ystod cyfnod fy rhagflaenydd fel Cadeirydd, Paul Davies AS. Mae'r newid i economi werdd yn cyflwyno heriau sylweddol a chyfleoedd rhyfeddol i Gymru. Mae'r adroddiad hwn yn archwilio'r materion hyn, gan ymchwilio i rai o'r camau ymarferol sydd eu hangen i fanteisio ar y cyfleoedd a nodwyd ac i fynd i'r afael â'r heriau. Roedd y Pwyllgor am dynnu sylw at bwysigrwydd dull strategol o ddatgarboneiddio, yr angen am bartneriaethau cyhoeddus-preifat cadarn i fuddsoddi a chyflawni, a rôl hollbwysig cynnwys cymunedau mewn prosiectau ynni adnewyddadwy.

Drwy'r argymhellion a amlinellir yn yr adroddiad hwn, nod y Pwyllgor yw dangos sut y gall Cymru reoli cyfnod pontio teg, yn ogystal ag elwa ar fanteision economaidd posibl o symud i economi werdd. Drwy feithrin cydweithrediad rhwng Llywodraeth Cymru, diwydiant, a chymunedau lleol, cred y Pwyllgor fod potensial i greu swyddi o ansawdd uchel, cadw cyfoeth o fewn ein cymunedau, ac arwain y ffordd mewn arloesedd ynni adnewyddadwy.

Estynnaf fy niolch i bawb a gyfrannodd o'u hamser a'u harbenigedd i'r ymchwiliad hwn. Mae eich mewnwelediadau wedi bod yn amhrisiadwy wrth gefnogi'r Pwyllgor i ddod i'w gasgliadau. Hoffwn hefyd ddiolch i Paul am ei waith fel Cadeirydd, ar yr ymchwiliad hwn ac ar arwain gwaith y Pwyllgor hwn ers ei sefydlu yn 2021, ac i Aelodau eraill y Pwyllgor a gyfrannodd.



**Andrew RT Davies MS**
Cadeirydd

# Argymhellion a Casgliadau

**Argymhelliad 1.** Erbyn mis Mai 2025, dylai Llywodraeth Cymru nodi'n glir pa gamau y mae angen i Lywodraeth y DU eu cymryd i gefnogi'r broses o drosglwyddo Cymru i economi werdd. Dylai hyn lywio'r gwaith o ddatblygu strategaeth ddiwydiannol y ddwy lywodraeth i ddatgarboneiddio economi Cymru. ........ Tudalen 17

**Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y bydd yn denu datblygwyr masnachol i ddod yn bartneriaid gweithredol yn y cyfnod pontio hwn, a pha amodau y bydd yn eu gosod ar gyd-fuddsoddi â hwy. ........ Tudalen 17

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru a phartneriaid gyhoeddi canllawiau cyson ar gyfer datblygwyr i gefnogi dull strategol o sicrhau buddion cymunedol ar draws prosiectau ynni adnewyddadwy er mwyn sicrhau bod mwy o'r cyfoeth a gynhyrchir gan y sector adnewyddadwy yn cael ei gadw gan y cymunedau sy'n gartref i'r datblygiadau hynny. ........ Tudalen 27

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r hyn a ddiffinnir fel eiddo lleol yn ei thargedau cynhyrchu, er mwyn cau unrhyw fylchau. Dylai hefyd nodi sut y bydd y diffiniad mwy llym hwn o berchnogaeth leol yn cael ei ddefnyddio i gyrraedd y targed o gynhyrchu 1.5GW o ynni lleol erbyn 2035. ........ Tudalen 27

**Argymhelliad 5.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi ei strategaeth ar gyfer cyflwyno targedau neu gwotâu ar gyfer defnyddio gweithwyr a chontractwyr lleol wrth ddatblygu gosodiadau ynni adnewyddadwy a'u cydrannau a'u seilwaith cysylltiedig, gan gynnwys trafodaethau â Llywodraeth y DU i ddiwygio'r cynllun Contractau ar gyfer Gwahaniaeth, a all fod yn rhwystr i'r defnydd o lafur a chadwyni cyflenwi lleol. ........ Tudalen 28

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru roi diweddariadau rheolaidd i'r Pwyllgor ar y cynnydd y mae Ynni Cymru a Trydan Gwyrdd Cymru yn ei wneud yn erbyn eu nodau a'u hamcanion a sut y byddant yn gweithio gyda GB Energy. ........ Tudalen 28

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Llywodraeth y DU, Ystad y Goron a diwydiant i ddatblygu a chyhoeddi rhaglen o brosiectau ynni adnewyddadwy sy'n cael ei diweddaru'n rheolaidd. ........ Tudalen 35

**Argymhelliad 8.** Dylai Llywodraeth Cymru roi rhagor o fanylion am sut y mae'n bwriadu gweithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael â'r diffyg adnoddau yn y system

gynllunio, fel bod penderfyniadau o ran caniatâd yn cael eu gwneud yn gyflymach ar gyfer ceisiadau ynni adnewyddadwy. ........ Tudalen 35

**Argymhelliad 9.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y bydd yn blaenoriaethu buddsoddiad mewn porthladdoedd, a chefnogi porthladdoedd Cymru yn eu hymdrechion i gael mynediad at gyllid gan Lywodraeth y DU, megis y Cynllun Buddsoddi mewn Gweithgynhyrchu Gwynt ar y Môr. ........ Tudalen 35

**Argymhelliad 10.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda phartneriaid i ddatblygu cynlluniau gweithredu pontio teg i gefnogi'r cymunedau a'r gweithwyr sydd fwyaf agored i niwed o ran effeithiau negyddol pontio i sero net. ........ Tudalen 41

**Argymhelliad 11.** Dylai Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU weithio gyda phartneriaid, gan gynnwys diwydiant a sefydliadau addysgol i fynd i'r afael â'r bwlch mewn amrywiaeth yn y gweithlu ynni adnewyddadwy. Gallai hyn gynnwys datblygu llwybrau addysg a hyfforddiant mwy cynhwysol i rolau ynni adnewyddadwy, ac arwain gwaith i sicrhau bod partneriaid yn gallu cyfrannu at newid diwylliannol mewn gweithleoedd ynni sy'n eu gwneud yn fwy deniadol i grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol. ........ Tudalen 42

**Argymhelliad 12.** Dylai Llywodraeth Cymru gynnal, neu gomisiynu, archwiliad sgiliau i ddeall yn well pa ddarpariaeth sgiliau sydd ar gael ar hyn o bryd, a ble mae bylchau yn y ddarpariaeth. Dylai hyn sefydlu pa sgiliau sydd eu hangen, nawr ac yn y blynyddoedd i ddod, a ble y mae eu hangen, a ble y bydd eu hangen i fynd i'r afael â phrinder sgiliau. Yn dilyn yr archwiliad sgiliau, dylai Llywodraeth Cymru lunio adroddiad yn egluro'n glir beth sydd ei angen erbyn pryd. Dylid diweddaru'r adroddiad hwn yn rheolaidd i alluogi darparwyr sgiliau a diwydiant i gydweithio i ddarparu'r sgiliau sydd eu hangen. Yn dilyn yr archwiliad sgiliau a argymhellir yn yr adroddiad hwn, dylai Llywodraeth Cymru lunio adroddiad yn egluro'n glir beth sydd ei angen erbyn pryd. Dylid diweddaru'r adroddiad hwn yn rheolaidd i alluogi darparwyr sgiliau a diwydiant i gydweithio i ddarparu'r sgiliau sydd eu hangen. Dylai Llywodraeth Cymru fynd i'r afael â'r diffyg cyfatebiaeth canfyddedig rhwng y system addysg a sgiliau a'r hyn sydd ei angen ar y diwydiant, gan gynnwys a all y system bresennol gyflawni ar gyfer uwchsgilio ac ailsgilio'r gweithlu presennol. ........ Tudalen 53

**Argymhelliad 13.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y bydd yn gweithio gyda Gyrfa Cymru i sicrhau bod cyngor gyrfaoedd yn cael ei integreiddio'n well ar hyd taith addysg disgybl i sicrhau bod pobl ifanc yn ymwybodol o'r cyfleoedd yng Nghymru a geir yn sgil trosglwyddo i economi wyrddach. ........ Tudalen 53

**Argymhelliad 14.** Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu strategaeth buddsoddi sero net hirdymor. ........ Tudalen 58

**Argymhelliad 15.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Banc Datblygu Cymru i nodi'r camau y dylai'r Banc eu cymryd i chwarae mwy o ran wrth gyfrannu at yr hyn a alwodd y Banc y "genhadaeth economaidd unigol fwyaf yng Nghymru" – sef cyflawni sero net. Dylai hyn gynnwys cymorth ar gyfer buddsoddiad y sector preifat a darpariaeth ynni cymunedol. ........ Tudalen 58

**Argymhelliad 16.** Dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio pob ysgogiad posibl i flaenoriaethu buddsoddiad yn y newid i economi wyrddach, gan gynnwys gweithio gyda phartneriaid fel Llywodraeth y DU, y Gronfa Gyfoeth Wladol ac awdurdodau lleol i fuddsoddi ar y cyd mewn prosiectau lle bo'n briodol. Dylai gwariant ganolbwyntio ar gyfleoedd i drosoli buddsoddiad gan y sector preifat a llenwi bylchau buddsoddi posibl. ........ Tudalen 58

**Casgliad 1.** Mae'r economi werdd yn gyfle y mae'n rhaid manteisio arno'n gyflym. Dylai Llywodraeth Cymru weithio'n gyflym gyda'r sector cyhoeddus a'r sector preifat i gefnogi datgarboneiddio, wedi'i ategu gan bontio teg, a hynny er mwyn helpu Cymru i wireddu yn llawn y cyfleoedd a gyflwynir. Yn ei thro, rhaid i Lywodraeth Cymru wneud y defnydd mwyaf o bartneriaethau cyhoeddus-preifat i ysgogi buddsoddiad mewn ynni adnewyddadwy. ........ Tudalen 17

**Casgliad 2.** Dylai Llywodraethau Cymru a Llywodraeth y DU gydweithio'n gyflym i ddatblygu strategaeth ddiwydiannol sy'n darparu gweledigaeth glir ar gyfer datgarboneiddio economi Cymru. Rhaid i'r strategaeth hwyluso Llywodraeth Cymru i gymryd rôl arweiniol allweddol wrth ddatgarboneiddio diwydiant Cymru. ........ 17

**Casgliad 3.** Bydd angen i Lywodraeth Cymru ddefnyddio partneriaethau cyhoeddus-preifat i ysgogi buddsoddiad mewn ynni adnewyddadwy. Fel rhan o hyn dylai wneud ceisiadau uchelgeisiol ond realistig i ddatblygwyr masnachol fel amodau buddsoddiad y llywodraeth. ........ Tudalen 17

**Casgliad 4.** Mae seilwaith rhwydwaith pŵer gwan yn fater y mae'n rhaid mynd i'r afael ag ef er mwyn cefnogi'r broses o ddatgloi potensial economi werdd a thwf gwyrdd Cymru. ........ Tudalen 35

# 1. Y cefndir

Mae'r adroddiad hwn wedi'i lunio yn sgil ymchwiliad a gynhaliwyd gan y Pwyllgor sy'n canolbwyntio ar y cyfleoedd a'r heriau economaidd posibl sy'n ymwneud â'r economi werdd, a'r camau ymarferol y bydd angen i Lywodraeth Cymru ac eraill eu cymryd mewn perthynas â'r rhain.

**1.** Dyma'r cylch gorchwyl llawn i'r Pwyllgor ei ystyried:

- O fewn ei phwerau datganoledig, beth ddylai blaenoriaethau allweddol Llywodraeth Cymru fod, i wneud y mwyaf o'r cyfleoedd economaidd posibl o sectorau'r economi werdd? I ba raddau y mae ei dull presennol yn adlewyrchu'r rhain?
- Beth yw'r rhwystrau allweddol i Gymru o ran gwneud y gorau o gyfleoedd yn yr economi werdd, a pha gamau y dylid eu cymryd i'w goresgyn?
- Pa gamau y dylai Llywodraeth Cymru eu cymryd i gefnogi'r gwaith o ddatblygu cadwyni cyflenwi yng Nghymru yn sectorau'r economi werdd?
- Pa heriau o ran sgiliau sy'n bodoli mewn perthynas â phontio i economi werdd? Pa gamau y dylid eu cymryd, a phwy ddylai eu cymryd, i sicrhau bod y sgiliau yno i fodloni gofynion cynyddol economi werdd?
- Beth fydd ei angen ar weithwyr a chyflogwyr ar gyfer cyfnod pontio teg i economi Sero Net, a pha gamau y dylai Llywodraeth Cymru eu cymryd i gyflawni'r elfennau o hyn sydd o fewn ei phwerau datganoledig?
- Ym mha ffyrdd y bydd angen i Lywodraeth Cymru weithio mewn partneriaeth ag eraill i wireddu potensial yr economi werdd a sicrhau cyfnod pontio teg? I ba raddau y mae'r gwaith partneriaeth sydd ei angen yn cael ei wneud?
- Dywed Llywodraeth Cymru y bydd yn wynebu cyfyngiadau cyllidebol sylweddol yn y byrdymor. Sut y dylai flaenoriaethu buddsoddiad i

gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r economi werdd yn y byrdymor a'r tymor hwy? Pa ddulliau ariannu arloesol y gellid eu hystyried i wneud y mwyaf o fuddion a buddsoddiad posibl?

**2.** Cynhaliodd y Pwyllgor ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 23 Ionawr 2024 a 7 Mawrth 2024, a chafwyd 39 o ymatebion. Rhestrir y rhain yn Atodiad 2, ynghyd â thystiolaeth ysgrifenedig arall a gyhoeddwyd yn ystod yr ymchwiliad. Ystyriwyd yr ymatebion a ddaeth i law yn fanwl a buont yn gymorth i lywio dealltwriaeth yr Aelodau o'r materion o bwys, a'u cwestiynau i dystion a roddodd dystiolaeth lafar.

**3.** Clywyd tystiolaeth lafar yn y cyfnod rhwng mis Mawrth a mis Mehefin 2024, pan glywodd y Pwyllgor gan amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys academyddion; cynrychiolwyr y sector busnes a'r sector ynni adnewyddadwy; undebau llafur; darparwyr sgiliau; a dwy astudiaeth achos – Sir Benfro ac Ynys Môn. Mae manylion am y tystion a roddodd dystiolaeth lafar ar gael yn Atodiad 1.

**4.** Mae'r Pwyllgor yn estyn eu gwerthfawrogiad i bawb a rannodd eu hamser a'u harbenigedd â ni i lywio'r darn hwn o waith.

# 2. Y dull strategol o ddatgarboneiddio’r economi

Bydd datgarboneiddio economi Cymru yn cyflwyno llawer o heriau; ond mae hefyd yn cynnig y cyfle i greu swyddi arloesol o ansawdd uchel.

**5.** Yn ogystal â chyflwyno cyfleoedd da i’r unigolyn, mae’r swyddi hyn yn hwb sylweddol i’r economi, gyda swyddi gwyrdd yng Nghymru deirgwaith yn fwy cynhyrchiol na chyfartaledd Cymru.[1] Mae dadansoddiad a gomisiynwyd gan RenewableUK Cymru yn awgrymu y gallai Cymru elwa ar werth £47 biliwn o fuddsoddiad mewn ynni adnewyddadwy erbyn 2035 a allai greu miloedd o swyddi.[2] Galwodd llawer o randdeiliaid ar Lywodraeth Cymru i gymryd gafael strategol ar yr her hon drwy ddatblygu ‘strategaeth ddiwydiannol werdd’.

**6.** Y risg os nad eir i’r afael â’r her hon yn gywir yw na fydd Cymru yn elwa ar y cyfleoedd a ddaw yn sgil datgarboneiddio. Er mwyn llwyddo i gymryd y gafael strategol y mae rhanddeiliaid yn ei gredu sy’n ofynnol, bydd angen i Lywodraeth Cymru weithio gyda busnesau a chyrff eraill yn y sector cyhoeddus i sicrhau bod ei strategaeth yn cael ei chynllunio a’i gweithredu’n gywir.

## Datgarboneiddio’r economi fel rhan o strategaeth ddiwydiannol ehangach

**7.** Ar 17 Medi nododd y Prif Weinidog newydd, Eluned Morgan AS, ei blaenoriaethau ar gyfer y Llywodraeth. Mae’r rhain yn cynnwys “swyddi gwyrdd a thwf – creu swyddi gwyrdd sy’n mynd i’r afael â’r argyfwng hinsawdd ac yn adfer natur, gan sicrhau bod teuluoedd ar eu hennill; a chyflymu penderfyniadau cynllunio i dyfu economi Cymru”.[3]

**8.** Yn ystod yr ymchwiliad hwn clywodd y Pwyllgor lawer o alwadau ar i Lywodraeth Cymru chwarae rhan flaenllaw drwy osod strategaeth ddiwydiannol a fyddai’n cefnogi ynni adnewyddadwy ac yn datgarboneiddio’r sector gweithgynhyrchu.

[1] RenewableUK Cymru tystiolaeth ysgrifenedig (Saesneg yn unig)
[2] RenewableUK Cymru, Wales poised for a £47 billion investment opportunity from renewables by 2035 (Saesneg yn unig)
[3] Datganiad i'r wasg gan Lywodraeth Cymru,'Prif Weinidog yn cyhoeddi blaenoriaethau Llywodraeth Cymru', Medi 2024

**9.** Galwodd Diwydiant Sero Net Cymru ar Lywodraeth Cymru i weithio ar y cyd â diwydiant i osod amcanion a nodau clir, i osod strategaeth ddiwydiannol, ac yna i'w gwneud yn glir i Lywodraeth y DU beth sydd ei angen ganddynt er mwyn gwneud hynny'n realiti.[4]

**10.** Tynnodd Prospect Cymru sylw at y pwysigrwydd y byddai angen i ynni ei chwarae mewn unrhyw strategaeth ddiwydiannol werdd newydd. Dywedodd wrth yr Aelodau:

> *"Energy should be at the heart of a wider green industrial strategy that invests in our domestic manufacturing capacity."*[5]

**11.** Ym mis Medi 2024 ymrwymodd Llywodraeth y DU i gyflwyno strategaeth ddiwydiannol newydd gyda phedair cenhadaeth - pŵer glân erbyn 2030; harneisio data er lles y cyhoedd; gofalu am y dyfodol; ac adeiladu economi wydn.[6] Roedd yn nodi rhagor o fanylion am y strategaeth arfaethedig hon mewn papur gwyrdd o'r enw 'Invest 2035: the UK's modern industrial strategy' a gyhoeddwyd ym mis Hydref.[7] Mae diwydiannau ynni glân hefyd yn un o'r wyth 'sector sy'n sbarduno twf' y mae Llywodraeth y DU yn bwriadu canolbwyntio arnynt.

## Datgarboneiddio'r economi gyfan

**12.** Cafodd y Pwyllgor amrywiaeth o dystiolaeth a oedd yn tynnu sylw at yr angen i ddatgarboneiddio'r economi gyfan, yn hytrach na chanolbwyntio'n llwyr ar sectorau 'economi werdd' penodol. Fel y dywedodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru wrth y Pwyllgor :

> *"My first answer to this is to urge you and the Welsh Government to see the green economy as the whole economy. I think, sometimes, the green economy is seen as a subsection of our economic strategy or economic model, but we know, because of the crisis in our nature systems, because of the climate change crisis that we face, that all of our economy needs to be a green economy."*[8]

[4] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 21 Mawrth 2024, paragraff 181
[5] Prospect Cymru, tystiolaeth ychwanegol (Saesneg yn unig)
[6] Strategaeth Ddiwydiannol y Blaid Lafur, Medi 2023 (Saesneg yn unig)
[7] Invest 2035: the UK's modern industrial strategy (Saesneg yn unig), Tachwedd 2024
[8] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 21 Mawrth 2024, paragraff 341

**13.** Mewn gwirionedd, tynnodd rhai tystion sylw at broblemau posibl gyda'r termau 'economi werdd' a 'swyddi gwyrdd' yn gyffredinol. Dywedodd Diwydiant Sero Net Cymru wrth yr Aelodau:

> *"I would like to challenge this notion of green jobs and green sectors, because it suggests that certain parts of the economy cannot transition to net zero and, as such, we're sending the wrong messages, I think, to future generations, that there's no future in those kinds of jobs. I think there is a counter-factual there: there is actually a future, there is a clear plan to transition to a much greener industrial sector in Wales, but it takes a bit of time, and that time is needed to build up the renewable resources needed to power again that industry, going forward, in the same way that coal did."*[9]

## Cydweithio i ddatgarboneiddio'r economi

### Arweinyddiaeth

**14.** Dywedodd rhanddeiliaid wrth y Pwyllgor ei bod yn bwysig bod Llywodraeth Cymru, a chyrff cyhoeddus allweddol eraill, yn defnyddio eu pŵer a'u dylanwad i chwarae rhan arweiniol yn y symudiad at economi werdd. Roedd RenewableUK Cymru yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu arweinyddiaeth a grym cynnull i ddangos arwydd cryf mai Cymru yw'r lle i ddod i fuddsoddi yn yr economi werdd, a lleisiodd bryder bod Cymru yn cael ei gadael ar ôl o gymharu â rhannau eraill o'r DU.[10]

**15.** Clywodd yr Aelodau hefyd alwadau tebyg gan gwmnïau ynni adnewyddadwy yn uniongyrchol. Dywedodd Statkraft:

> *"… there is a vital need to provide clear and unequivocable signals that makes Wales an attractive place to do renewable Business…"*[11]

**16.** Dywedodd Blue Gem Wind wrth y Pwyllgor fod arweinyddiaeth wleidyddol yn hollbwysig ac na ddylid diystyru effaith negeseuon ar lefel weinidogol i fuddsoddwyr preifat rhyngwladol.[12]

---

[9] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 21 Mawrth 2024, paragraff 101
[10] RenewableUK Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig (Saesneg yn unig)
[11] Statkraft UK, tystiolaeth ysgrifenedig (Saesneg yn unig)
[12] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 13 Mehefin 2024, paragraff 15

**17.** Amlygodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg ar y pryd, Jeremy Miles AS , gyfleoedd Cymru ar gyfer ynni adnewyddadwy.[13] Aeth ymlaen i dynnu sylw at y rôl arweiniol a chwaraeir gan Lywodraeth Cymru drwy sicrhau bod Gweinidogion yn cymryd rhan yn y drafodaeth ryngwladol mewn cynadleddau ac wrth gynnal y gwaith ymchwil manwl i ynni adnewyddadwy a'r adolygiad trawsnewid ynni gwynt arnofiol ar y môr yr oedd wedi'i gomisiynu.[14]

### Cydweithrediad rhwng gwahanol lefelau o lywodraeth

**18.** Yn ogystal â chydweithredu rhwng Llywodraeth Cymru a diwydiant, clywodd yr Aelodau ei bod yn bwysig bod gwahanol lefelau o lywodraeth yn gweithio gyda'i gilydd, a chyda diwydiant, i gefnogi symudiad i ddatgarboneiddio. Dywedodd RenewableUK Cymru wrth y Pwyllgor:

> *"... now's the time to focus on working in partnership between Welsh Government, industry and communities, and in collaboration with the UK Government on reserved matters."*[15]

**19.** Dywedodd TUC Cymru wrth yr Aelodau yr hoffai weld dull partneriaeth gymdeithasol ganolog sy'n dod ag arweinyddiaeth y sector cyhoeddus a'r sector preifat at ei gilydd gydag undebau.[16] Nodwyd hefyd bod y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol yn edrych ar sefydlu is-grŵp pontio ar y cyd.

**20.** Fel rhan o'r ymchwiliad, edrychodd y Pwyllgor ar Ynys Môn a Sir Benfro yn fanylach fel dwy astudiaeth achos i gael persbectif lleol o'r economi werdd. Amlygodd y rhain rai enghreifftiau o arfer da. Wrth sôn am Ynys Môn, dywedodd M-Sparc wrth y Pwyllgor:

> *"Everybody has their remit, their piece of the puzzle, and everybody works really well together. And so I think that joined-up approach is something that I think could be replicated, because a lot of people, when they come to the region and want to engage, find it quite easy."*[17]

**21.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet ar y pryd, Jeremy Miles AS, wrth y Pwyllgor fod Llywodraeth Cymru yn ymwneud â nifer o bartneriaethau

[13] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 26 Mehefin 2024, paragraff 131
[14] Llywodraeth Cymru, Gwaith ymchwil manwl ynni adnewyddadwy: argymhellion
[15] RenewableUK Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig (Saesneg yn unig)
[16] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 13 Mehefin 2024, Paragraff 133
[17] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 22 Mai 2024, paragraff 121

rhanbarthol a Chymru gyfan mewn perthynas â datgarboneiddio'r economi. Tynnodd sylw hefyd at fwriad Llywodraeth Cymru i weithio gyda phartneriaid i ddatblygu hybiau twf glân yn y Barri, Glannau Dyfrdwy, Llantrisant, Aberdaugleddau, Casnewydd a Wrecsam.[18]

**Partneriaethau cyhoeddus-preifat**

**22.** Clywodd y Pwyllgor gan amrywiaeth o sefydliadau y bydd partneriaethau cyhoeddus-preifat yn hanfodol i sicrhau buddsoddiad i ddatgarboneiddio'r economi. Rhoddodd Cymru Sero Net grynodeb o hyn fel a ganlyn:

> *"… there's a real need to develop these stronger public-private sector partnerships to get ready for this tsunami of investment and that transition that we need. We shouldn't take this as a 'business as usual' kind of thing. It should be really taskforce driven. It should be driven in a way that we actually are managing a big transformational change, and it requires a different organisation."*[19]

**23.** Tynnodd Make UK sylw at yr angen i Lywodraeth Cymru weithio mewn partneriaeth â diwydiant i sicrhau pontio teg i economi sero net.[20] Dywedodd hefyd fod angen cytuno ar nodau clir, a sut i fonitro cynnydd yn erbyn y rhain.

**24.** Tynnodd Statkraft sylw at yr angen i ddatblygwyr cyhoeddus, preifat a chymunedol gydweithio.[21] Cafodd yr Aelodau wybod bod angen datblygiadau pob plaid i gyrraedd sero net, a drwy gydweithio, mae marchnad allforio nad yw'n echdynnol a allai ddod â manteision ychwanegol lluosog yn nhermau economaidd ond hefyd o ran cyfleoedd lleol ar gyfer swyddi a busnesau Cymru, gan rannu arbenigedd a gwasanaethau Cymreig yn fyd-eang.

**25.** Ym mis Mehefin 2024, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet ar y pryd, Jeremy Miles AS, fod trafodaethau'n parhau ynghylch bargen i'r sector ynni adnewyddadwy. Nododd uchelgais i gael y fargen ar waith erbyn diwedd y flwyddyn hon, neu'n gynnar iawn y flwyddyn nesaf, os yn bosibl.[22]

[18] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 26 Mehefin 2024, paragraffau 135 a 140
[19] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 21 Mawrth 2024, paragraff 182
[20] Make UK, tystiolaeth ysgrifenedig (Saesneg yn unig)
[21] Statkraft UK, tystiolaeth ysgrifenedig (Saesneg yn unig)
[22] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 26 Mehefin 2024, Paragraff 138

## Ein barn ni

Mae creu economi werdd yn gwbl hanfodol os yw Cymru am gyflawni ei rhwymedigaethau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ac os ydym am chwarae ein rhan i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd. Mae ganddo hefyd y potensial i greu cyfleoedd economaidd sylweddol i gymunedau ledled Cymru. Fodd bynnag, ni fydd hyn yn digwydd ar hap. Mae angen strategaeth ddiwydiannol gyfoes ar Gymru gyda datgarboneiddio yn ganolog iddi, ac arweiniad clir gan Lywodraeth Cymru i fwrw ymlaen â'r agenda hon.

Mae creu economi werdd yn gofyn am weithredu gan amrywiaeth eang o randdeiliaid. Rhaid i Lywodraeth Cymru gydweithredu â phartneriaid ar bob lefel o lywodraeth, ar draws diwydiant, a chyda chymunedau i chwarae ei rôl arwain yn effeithiol. Er mwyn achub ar y cyfleoedd a ddaw yn sgil datgarboneiddio, ac osgoi cael eich gadael ar ôl o gymharu â rhannau eraill o'r DU, mae angen bwrw ymlaen ar fyrder.

Rydym yn pryderu os na fydd Llywodraeth Cymru yn chwarae'r rôl arweiniol allweddol hon, yna bydd Cymru yn colli'r cyfleoedd a gyflwynir yn sgil symud i economi wyrddach. Gall methiant mewn arweinyddiaeth hefyd arwain at broses bontio arafach a diwydiant Cymru yn parhau i lygru am gyfnod hwy.

Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod elfen fawr o drosglwyddo i sero net ac adeiladu economi werdd y tu allan i rodd uniongyrchol Llywodraeth Cymru. Bydd gan Lywodraeth y DU ran allweddol i'w chwarae yn y mater, er enghraifft mae'n gyfrifol am gynhyrchu pŵer ar raddfa fawr. Yn yr achosion hyn rhaid i Lywodraeth Cymru wneud y mwyaf o'i phŵer dylanwadu i annog Llywodraeth y DU a phartneriaid eraill i chwarae eu rhan i gefnogi'r gwaith o ddatblygu economi werdd Cymru.

Rydym yn cytuno bod angen i Lywodraeth Cymru ganolbwyntio ar ddatgarboneiddio'r economi gyfan, a bod angen iddi fod yn glir bod potensial i swyddi mewn sectorau allyriadau uchel ddod yn swyddi carbon isel yn y dyfodol.

Nid yw datgarboneiddio diwydiant yn ymwneud â dad-ddiwydiannu, mae'n ymwneud â defnyddio ein diwydiannau a'u gweithlu i adeiladu'r strwythurau sydd eu hangen arnom i gyrraedd sero net. Bydd hyn yn galluogi diwydiant Cymru i gynhyrchu'r nwyddau a'r gwasanaethau yr ydym i gyd yn dibynnu arnynt, tra'n cael gwared ar yr allyriadau carbon sy'n arwain at newid hinsawdd ac yn achosi effeithiau andwyol difrifol yng Nghymru a ledled y byd.

**Casgliad 1.** Mae'r economi werdd yn gyfle y mae'n rhaid manteisio arno'n gyflym. Dylai Llywodraeth Cymru weithio'n gyflym gyda'r sector cyhoeddus a'r sector preifat i gefnogi datgarboneiddio, wedi'i ategu gan bontio teg, a hynny er mwyn helpu Cymru i wireddu yn llawn y cyfleoedd a gyflwynir. Yn ei thro, rhaid i Lywodraeth Cymru wneud y defnydd mwyaf o bartneriaethau cyhoeddus-preifat i ysgogi buddsoddiad mewn ynni adnewyddadwy.

**Casgliad 2.** Dylai Llywodraethau Cymru a Llywodraeth y DU gydweithio'n gyflym i ddatblygu strategaeth ddiwydiannol sy'n darparu gweledigaeth glir ar gyfer datgarboneiddio economi Cymru. Rhaid i'r strategaeth hwyluso Llywodraeth Cymru i gymryd rôl arweiniol allweddol wrth ddatgarboneiddio diwydiant Cymru.

**Casgliad 3.** Bydd angen i Lywodraeth Cymru ddefnyddio partneriaethau cyhoeddus-preifat i ysgogi buddsoddiad mewn ynni adnewyddadwy. Fel rhan o hyn dylai wneud ceisiadau uchelgeisiol ond realistig i ddatblygwyr masnachol fel amodau buddsoddiad y llywodraeth.

**Argymhelliad 1.** Erbyn mis Mai 2025, dylai Llywodraeth Cymru nodi'n glir pa gamau y mae angen i Lywodraeth y DU eu cymryd i gefnogi'r broses o drosglwyddo Cymru i economi werdd. Dylai hyn lywio'r gwaith o ddatblygu strategaeth ddiwydiannol y ddwy lywodraeth i ddatgarboneiddio economi Cymru.

**Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y bydd yn denu datblygwyr masnachol i ddod yn bartneriaid gweithredol yn y cyfnod pontio hwn, a pha amodau y bydd yn eu gosod ar gyd-fuddsoddi â hwy.

# 3. Cefnogi cymunedau i elwa o'r newid i economi wyrddach

Mae symud i economi wyrddach, ac yn enwedig ymdrechion i ddatgarboneiddio'r rhwydwaith ynni, yn cynnig cyfleoedd sylweddol i gymunedau lleol. Mae'r rhain yn cynnwys creu swyddi lleol o ansawdd da, taliadau difidend budd cymunedol gan fusnesau cynhyrchu, neu'r cyfleoedd i fod yn rhan o berchnogaeth y cyflenwad pŵer lleol. Mae angen manteisio ar y cyfleoedd hyn a rhoi strategaeth ar waith i sicrhau eu bod yn cael eu gwireddu'n llawn fel bod cymunedau lleol yn elwa'n ystyrlon.

**26.** Bydd pob cymuned yn elwa o rwydwaith ynni wedi'i ddatgarboneiddio drwy leihau carbon a mathau eraill o lygredd. Fodd bynnag, gall cymunedau sy'n cynnal safleoedd cenhedlaeth newydd neu beilonau brofi aflonyddwch sylweddol yn y broses. Felly, dylid rhoi cyfleoedd pwrpasol iddynt elwa ar y prosiectau hyn.

**27.** Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth sylweddol ynghylch y manteision neu'r taliadau mwy uniongyrchol y gallai neu y dylai cymunedau eu cael o ganlyniad i gynnal y safleoedd hynny. Er enghraifft, dywedodd RenewableUK Cymru wrth yr Aelodau:

> *"We've seen £6.5 million come into communities from onshore wind alone in recent years, and, if the pipeline that we are aspiring to, which is up to 3 GW in the next decade, is realised, that £6.5 million figure could increase to £20 million. So, it's not an insignificant amount of money that's available here to support communities".*[23]

**28.** Fodd bynnag, clywodd y Pwyllgor gan RenewableUK Cymru fod llawer o waith i'w wneud i sicrhau y gall Cymru wireddu'r manteision hyn yn llawn.

[23] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 21 Mawrth 2024, paragraff 110

**29.** Dywedodd Cadeirydd GB Energy, Jurgen Maier, wrth gynhadledd flynyddol Cydffederasiwn Diwydiant Prydain ym mis Tachwedd 2024 eu bod am fuddsoddi mewn cynlluniau ynni cymunedol, cynlluniau pŵer lleol i ddangos y gellir trosglwyddo rhai o fanteision yr ynni adnewyddadwy hwn i'r defnyddwyr. Dywed nad yw o'r farn bod digon wedi'i wneud hyd yma. Dywedodd hefyd fod angen i brosiectau ynni adnewyddadwy 'ddangos budd' i grwpiau lleol a bod yn rhaid i lunwyr polisi fynd â chymunedau gyda hwy.[24]

## Cadw cyfoeth mewn cymunedau

### Astudiaeth achos: Menter Môn – Morlais



***Ffigur 1: Bwi monitro amgylcheddol. Darparwyd y llun gan Menter Môn***

Morlais yw prosiect ynni ffrwd llanw Menter Môn Morlais Ltd. Mae'n eiddo i Menter Môn, cwmni cymunedol y trydydd sector sy'n gweithredu'n bennaf yng ngogledd orllewin Cymru. Mae gan y cynllun y potensial i gynhyrchu hyd at 240MW o drydan carbon isel glân. Nod prosiect Morlais yw bod o fudd i gymunedau lleol, yr economi a hinsawdd drwy gynhyrchu trydan carbon isel adnewyddadwy ac ysgogi twf sector diwydiannol newydd ar Ynys Môn.

[24] Nation Cymru, GB Energy boss says clean power must 'show benefit' to local groups (Saesneg yn unig), Tachwedd 2024

Mae'r prosiect a'r ffordd y bydd yn gweithredu yn unigryw, a'r unig un o'i fath yn y byd. Mae Menter Môn Morlais Ltd yn gosod y seilwaith angenrheidiol yn y parth, gan gynnwys cysylltiad â'r grid trydan yng Nghaergybi drwy is-orsafoedd ar y lan ger Ynys Lawd ac ym Mharc Cybi. Mae'n rhentu angorfeydd ym Morlais i wahanol gwmnïau datblygu tyrbinau llif llanw er mwyn iddynt allu defnyddio ynni'r llanw i gynhyrchu trydan. Gall hyn olygu y bydd gwahanol fathau o dechnoleg cynhyrchu trydan yn cael eu gosod ar y môr fel rhan o Morlais.

Roedd rhan gyntaf y prosiect yn canolbwyntio ar geisio caniatâd gan Lywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru i gael caniatâd i ddatblygu'r cynllun. Cyflwynwyd y cais yn hydref 2019, a chafwyd caniatâd cynllunio a Thrwydded Forol ym mis Rhagfyr 2021.

Mae ail ran y prosiect yn ymwneud â gosod y seilwaith angenrheidiol fel y gall datblygwyr technoleg ynni llanw osod eu dyfeisiau ym Morlais. Y cynllun yw datblygu'r safle gam wrth gam sy'n golygu y bydd dyfeisiau'n cael eu gosod yn gynyddol yn y dŵr er mwyn sicrhau nad yw bywyd gwyllt morol yn cael ei niweidio.

Eisoes, mae 38MW o CFD (contractau ar gyfer gwahaniaeth) ar gyfer cynhyrchu trydan wedi'i ddyfarnu i ddatblygwyr technoleg, a bwriedir gosod y tyrbinau cyntaf yn 2026/27. Mae datblygiad cychwynnol parth Morlais wedi bod yn bosibl drwy gyllid gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear ac Ystad y Goron.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cymryd cyfran ecwiti o £8 miliwn yn ddiweddar ym Menter Môn Morlais Ltd ac mae Uchelgais Gogledd Cymru hefyd wedi cymeradwyo cyllid ar gyfer cam nesaf ehangu'r seilwaith trydanol (Cydnerth) i alluogi Morlais i gysylltu'n llawn â'r Grid Cenedlaethol. [25]

**30.** Drwy gynhyrchu trydan adnewyddadwy, bydd gosodiadau ynni gwyrdd newydd yn creu incwm i'w buddsoddwyr. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan amrywiaeth o randdeiliaid ei bod yn hanfodol bod o leiaf rhywfaint o'r cyfoeth a grëir gan y datblygiadau hyn yn cael ei gadw yn y cymunedau sy'n eu cynnal.

**31.** Dywedodd y Sefydliad Materion Cymreig wrth y Pwyllgor y dylai Llywodraeth Cymru weithio mewn partneriaeth â'r sector preifat i sicrhau bod Cymru yn cadw cyfran decach o'r incwm a gynhyrchir drwy ddatblygiadau ynni adnewyddadwy masnachol.[26] Yn ei adroddiad diweddar *Sharing power, spreading wealth:*

[25] Darparwyd yr astudiaeth achos gan Menter Môn
[26] Y Sefydliad Materion Cymreig, tystiolaeth ysgrifenedig (Saesneg yn unig)

*Towards an equitable energy transition for Wales*, dywedodd y Sefydliad Materion Cymreig hefyd:

> *"The Welsh Government should establish a Wales Wealth Fund, reinvesting income from renewable energy projects for the long-term benefits of future generations. The fund would capture 'sovereign wealth fund payments' of at least 15% of net revenues made from future large scale onshore and offshore wind projects with an installed capacity over 50 MW in Wales, alongside a CBF [community benefit fund] for the local community."*[27]

**32.** Amlygwyd dau o brosiectau Llywodraeth Cymru gan randdeiliaid sy'n cefnogi'r nod hwn. Un oedd Ynni Cymru, y mae Llywodraeth Cymru yn cyfeirio ato fel cwmni ynni newydd dan berchnogaeth gyhoeddus i Gymru, sydd â'r nod o ehangu cynhyrchiant ynni adnewyddadwy sy'n eiddo i'r gymuned ledled Cymru.[28] Y llall oedd Trydan Gwyrdd Cymru, corff sy'n eiddo i Lywodraeth Cymru ac a oedd yn anelu at gyflymu'r gwaith o ddatblygu prosiectau ynni adnewyddadwy ar ystad gyhoeddus Cymru.[29]

**33.** Yn ystod sesiwn ddiogelwch weinidogol gyffredinol, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio, Rebecca Evans AS, wrth yr Aelodau ei bod yn cael trafodaethau da iawn gyda Gweinidog Ynni Llywodraeth y DU ynghylch sut y bydd Trydan Gwyrdd Cymru yn gweithio gyda Great British Energy i sicrhau bod y gwaith yn cynyddu ac yn cyflymu'r buddsoddiad mewn ynni adnewyddadwy yng Nghymru. Dywedodd wrth yr Aelodau fod y gwaith hwn yn waith cadarnhaol iawn ac yn mynd rhagddo ar hyn o bryd.[30]

**34.** Fodd bynnag, mae Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith y Senedd yn pryderu ynghylch y posibilrwydd o ddyblygu swyddogaethau rhwng Trydan Gwyrdd Cymru a Great British Energy, a nododd sut y gellid mynd i'r afael â hyn.[31]

---

[27] Y Sefydliad Materion Cymreig, Sharing power, spreading wealth: Towards an equitable energy transition for Wales (Saesneg yn unig), Mawrth 2024
[28] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 21 Mawrth 2024, paragraff 275
[29] Ynni Cymunedol Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig (Saesneg yn unig)
[30] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 14 Tachwedd 2024, paragraff 297
[31] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith, Adroddiad ar Gydsyniad Deddfwriaethol Memorandwm ar gyfer Bil Ynni Prydain Fawr, Hydref 2024

## Ynni glân sy'n eiddo i'r ardal ac yn cael ei gynhyrchu'n lleol

**35.** Clywodd y Pwyllgor alwadau gan Lywodraeth Cymru am gysondeb o ran prosiectau ynni mawr. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Cyngor Sir Ynys Môn y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau:

> *"… bod y Llywodraeth yn gweithredu'n gyson mewn perthynas â'r gofyniad bod prosiectau ynni mawr yn rhoi budd cymunedol a pherchnogaeth leol er mwyn cydnabod bod cymunedau lleol yn cynnal prosiectau mawr."*[32]

**36.** Ym mis Gorffennaf 2023, yn dilyn ymgynghoriad, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai'n cynyddu ei tharged perchnogaeth leol ar gyfer capasiti cynhyrchu ynni adnewyddadwy.[33] Disgrifiodd y Llywodraeth hyn fel "dangos ein huchelgais ar gyfer y sector hwn, rydym yn mabwysiadu'r cynnig i o leiaf 1.5GW o gapasiti ynni adnewyddadwy fod o dan berchnogaeth leol erbyn 2035, gan gynyddu ein targed presennol ar gyfer 1GW erbyn 2030."

**37.** Mynegodd y Sefydliad Materion Cymreig bryderon ynghylch beth sy'n cyfrif fel ynni adnewyddadwy mewn perchnogaeth leol o ran y targedau hyn:

> *"The definition of 'local ownership' is limiting and does not ensure that local owners are indeed local to Wales with any requirement to be living within a set radius of the energy projects they part own. It is open to exploitation as developers who are simply headquartered in Wales can be considered 'local owners'."*[34]

**38.** Clywodd yr Aelodau am y potensial sydd gan gynhyrchu ynni cymunedol ar hyn o bryd, ac am bwysigrwydd manteisio ar y cyfleoedd a gyflwynir yn sgil cynyddu'r ynni. Dywedodd Ynni Cymunedol Cymru wrth y Pwyllgor:

> *"… in 2022, the community energy sector was only 0.5 per cent of the UK's electricity, but an expectation that it could be up to 10 per cent of UK electricity generation. So, it's a real mistake to identify the sector as the small bit player that it is now. There's a potential to create a*

[32] Cyngor Sir Ynys Môn, tystiolaeth ysgrifenedig
[33] Llywodraeth Cymru, Datganiad ysgrifenedig: Cyhoeddi Crynodeb o'r Ymatebion i'r Ymgynghoriad ar Dargedau Cymru ar gyfer Ynni Adnewyddadwy, Gorffennaf 2023
[34] Y Sefydliad Materion Cymreig, tystiolaeth ysgrifenedig (Saesneg yn unig)

> *local energy market spine that supports communities across Wales, with a lot of co-benefits to community energy projects.”*[35]

**39.** Fodd bynnag, rhybuddiodd Ynni Cymunedol Cymru na fyddai hyn o reidrwydd yn syml ac y byddai angen cymorth ariannol sylweddol. Nodwyd fod angen cronfa sy’n fwy na’r £10 miliwn sydd yn y gronfa ynni cymunedol ar hyn o bryd:

> *”We would need to look at innovation around the governance of that fund to bring in capital that could be put into projects—probably at financial investment decision point with the developer, which is quite hard to achieve—and then allow a community share offer to run for a long time and repay as much of that as possible.”*[36]

**40.** Mae Ynni Cymunedol Cymru hefyd wedi darparu enghraifft i’r Pwyllgor o arfer da, gan amlygu’r prosiect Heuldro 2 ym Methesda.

**Astudiaeth achos: Heuldro 2 – Ynni Ogwen**




***Ffigur 2: Paneli solar ar Glwb Rygbi Bethesda. Darparwyd y llun gan Ynni Cymunedol Cymru***

[35] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 21 Mawrth 2024, paragraff 207
[36] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 21 Mawrth 2024, paragraff 235

Mae rhaglen Heuldro Ynni Ogwen ym Methesda, a ddechreuwyd gyda chyllid a gafwyd gan gynllun hydro 100 kW y dref, yn darparu paneli solar ar adeiladau cymunedol ac adeiladau busnes. Derbyniodd Heuldro 2 grant dwy flynedd fel rhan o Grant Adnoddau Ynni Cymunedol Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru i ariannu swydd Rheolwr Datblygu. Nod Heuldro 2 yw ychwanegu 600 kWp ychwanegol o gapasiti ar y to ac ar y ddaear i bortffolio Heuldro. Mae'r paneli solar a osodwyd eisoes yn pweru Canolfan Gymunedol Canolfan Cefnfaes ac mae'r cynllun yn gwahodd adeiladau cymunedol neu eiddo busnes i gynnal paneli ar eu toeau ac elwa ar drydan mwy fforddiadwy a glanach.[37]

**41.** O ran perchnogaeth gymunedol, dywedodd Jeremy Miles AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg ar y pryd, wrth y Pwyllgor:

> *"The point I make about mandating local ownership is that that requires local ownership, and there may not always be that demand in a particular profile. I think the better way of approaching it is to make sure that we have stringent targets. We have pressed our targets even further recently, and I would be very content to press them further, frankly. The whole point of those is to be keeping people's feet to the fire, in a sense, and doing more and more in this space."*[38]

**42.** Ar 4 Chwefror, gwnaeth Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio ddatganiad yn y Cyfarfod Llawn ar Ynni Cymru ac ynni cymunedol. Yn hyn o beth, nododd fod 32 o brosiectau ledled Cymru wedi cael cyllid o £10 miliwn drwy grant system ynni lleol clyfar Ynni Cymru, y mae hanner ohonynt yn ymwneud â grwpiau cymunedol. Ychwanegodd yr Ysgrifennydd Cabinet y byddai £10 miliwn arall ar gael yn y flwyddyn ariannol nesaf, a bod Llywodraeth Cymru yn adolygu'r angen am gymorth yn y dyfodol i sefydliadau ynni lleol a chymunedol.[39]

## Diwygio cyllid budd cymunedol

**43.** Mae prosiectau ynni adnewyddadwy yn aml yn cynnig 'cyllid budd cymunedol' - ffordd o fynd i'r afael â'r uchod a rhannu'r elw o'r prosiect gyda'r gymuned sy'n cynnal y prosiect. Clywodd yr Aelodau gonsensws barn gan dystion fod angen dull mwy strategol o ariannu budd cymunedol. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd M-Sparc:

[37] Darparwyd yr astudiaeth achos gan Ynni Cymunedol Cymru
[38] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 26 Mehefin 2024, paragraff 171
[39] Cofnod y Trafodion, 4 Chwefror 2025, paragraffau 158-164

> *"There needs to be more strategic thinking about this funding, small pots of funding for community councils to host projects in their local area are not enough and a more ambitious approach is required. Developers should be given clear guidance on the commitments expected of them to host projects in Wales. We need to be bold in our ask – there are limited development sites and therefore Welsh Government could be in a strong bargaining position and use it accordingly."*[40]

**44.** Cytunodd Blue Gem Wind, datblygwr, fod angen meddwl mwy strategol i gyflawni cynlluniau budd cymunedol effeithiol.[41] Nododd hefyd fod angen gwneud mwy o waith ar brosiectau yn y dyfodol i sefydlu pwy yw'r gymuned sy'n lletya, yn enwedig o ran gosodiadau alltraeth. Dywedodd wrth yr Aelodau mai dyna lle mae angen meddwl strategol a chynllun strategol.

> *Blue Gem Wind highlighted the social value targets that are included in the Crown Estate's Floating Offshore Wind Leasing Round 5. "there is a section of that where developers have to deliver a social value model. Within that, there are targets for skills development, there are targets for those not in education, employment or training, and there are targets for community benefit."*[42]

**45.** Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, amlygodd y Sefydliad Materion Cymreig y canlynol:

> *"Unlike Scotland, the Welsh Government does not have policy guidance for developers relating to the provision and administration of community benefit funds (CBFs) from renewable projects to communities in Wales. This is a clear missed opportunity to facilitate greater investment into our communities from the private sector and ensure funds are used to foster greater economic development in communities."*[43]

**46.** Pan holwyd y Sefydliad ynghylch yr angen am weledigaeth strategol ar gyfer budd cymunedol, tynnodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r

[40] M-Sparc, tystiolaeth ysgrifenedig (Saesneg yn unig)
[41] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 13 Mehefin 2024, paragraff 87
[42] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 13 Mehefin 2024, Paragraff 91
[43] Y Sefydliad Materion Cymreig, tystiolaeth ysgrifenedig (Saesneg yn unig)

Gymraeg ar y pryd, Jeremy Miles AS, sylw at y gwaith y byddai Ynni Cymru yn ei wneud. Dywedodd y byddai'n cefnogi cymunedau i gael golwg fwy strategol ar sut y gellir defnyddio'r cyllid hwnnw ac y bydd Trydan Gwyrdd Cymru yn gwneud rhywfaint o hynny hefyd.[44]

**47.** Amlygodd yr Ysgrifennydd Cabinet ar y pryd hefyd yr hyn yr oedd yn ei weld fel enghreifftiau da o fudd cymunedol yn gweithio'n dda ledled Cymru, gan gynnwys Ynni Ogwen, sy'n ariannu trafnidiaeth carbon isel yn Nyffryn Ogwen. Dywedodd y byddai'r cyrff hyd braich newydd, Ynni Cymru a Trydan Gwyrdd Cymru, yn galluogi Llywodraeth Cymru i ehangu'r arfer da hwnnw.

## Cadwyni cyflenwi a chynnwys lleol

**48.** Mae safleoedd ynni adnewyddadwy yn aml yn ddatblygiadau mawr gyda chadwyni cyflenwi cymhleth. Clywodd yr Aelodau mai un ffordd o sicrhau'r manteision mwyaf posibl i gymunedau lleol fyddai annog y defnydd o fusnesau lleol yn y cadwyni cyflenwi hynny.

**49.** Dywedodd Onward wrth yr Aelodau fod rhai opsiynau gwahanol i gefnogi'r defnydd o gadwyni cyflenwi lleol ond mai'r rhai mwyaf realistig, yn gyntaf oll, yw'r rhai sy'n ymwneud â thargedau nad ydynt yn gyfreithiol rwymol ar gyfer cynnwys lleol o fewn diwydiannau penodol.[45] Aeth ymlaen i dynnu sylw at fargen y sector ynni gwynt ar y môr a oedd yn gosod targed i ddatblygwyr gyrraedd 60% o gynnwys domestig erbyn 2030.

**50.** Eglurodd Blue Gem Wind, o dan gynllun Contractau ar gyfer Gwahaniaeth Llywodraeth y DU, fod yn rhaid i ddarparwyr ddarparu'r ynni adnewyddadwy am y gost isaf, ac os yw hynny'n golygu defnyddio cadwyni cyflenwi nad ydynt yn lleol, yna, ar hyn o bryd, felly boed hynny. Roedd yn awgrymu dylanwadu ar y rowndiau Contractau ar gyfer Gwahaniaeth hynny yn y dyfodol a'r hyn sy'n rhoi gwerth mewn gwirionedd ar gadwyni cyflenwi domestig lleol. Dywedodd wrth yr Aelodau pe bai ein cadwyni cyflenwi yn cael eu:

> *"… skilled up and if they are experienced in this sector and they become cost competitive, actually, in an ideal world, you perhaps wouldn't even need a local content policy, because our domestic local supply chains would just be the most cost-effective."*[46]

[44] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 26 Mehefin 2024, Paragraff 163
[45] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 21 Mawrth 2024, paragraff 435
[46] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 13 Mehefin 2024, paragraff 75

## Ein barn ni

Mae cyfle rhagorol posibl i gymunedau sy'n cynnal seilwaith adnewyddadwy drwy gynlluniau budd cymunedol. Yn anffodus, nid yw hyn yn cael ei wireddu ar hyn o bryd ar draws yr holl brosiectau budd cymunedol.

Rydym yn pryderu bod y dirwedd budd cymunedol yn dameidiog, ac nad yw'n gweithredu ar y raddfa sydd ei hangen i gyflawni'r effaith ofynnol. Mae angen ymagwedd fwy strategol.

Rydym yn cytuno ag M-Sparc bod yn rhaid i Gymru fod yn feiddgar yn ein cais gan ddatblygwyr, a dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau strategol i sicrhau bod datblygwyr yn deall eu cyfrifoldebau i gymunedau. Bydd hyn yn helpu i sicrhau y gall Cymru ddatgloi budd llawn y buddsoddiad hwn.

Roeddem yn falch o glywed bod Llywodraeth Cymru wedi cynyddu ei thargedau ar gyfer capasiti cynhyrchu ynni adnewyddadwy dan berchnogaeth leol. Fodd bynnag, roeddem yn bryderus ynghylch bylchau posibl yn y diffiniad o 'berchnogaeth leol' sy'n agored i'w hecsbloetio fel bod datblygwyr sydd â'u pencadlys yng Nghymru yn cael eu dosbarthu fel 'perchnogion lleol'. Credwn fod angen i Lywodraeth Cymru weithredu i fynd i'r afael â'r bwlch hwn, er mwyn sicrhau bod y nodau y tu ôl i'w thargedau perchnogaeth leol yn cael eu cyflawni.

Bydd gosodiadau adnewyddadwy yn cael eu lleoli ledled Cymru. Os ymdrinnir â'r broses gyflwyno'n dda, a datblygwyr yn cael eu hannog i ddefnyddio gweithwyr lleol ac is-gontractwyr, yna mae gan hyn y potensial i sbarduno swyddi o ansawdd da ledled Cymru hefyd. Fodd bynnag, roeddem yn bryderus o glywed bod rhai elfennau o bolisi Llywodraeth y DU, megis cynlluniau Contractau ar gyfer Gwahaniaeth, yn anfwriadol yn annog datblygwyr i beidio â defnyddio talent leol.

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru a phartneriaid gyhoeddi canllawiau cyson ar gyfer datblygwyr i gefnogi dull strategol o sicrhau buddion cymunedol ar draws prosiectau ynni adnewyddadwy er mwyn sicrhau bod mwy o'r cyfoeth a gynhyrchir gan y sector adnewyddadwy yn cael ei gadw gan y cymunedau sy'n gartref i'r datblygiadau hynny.

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r hyn a ddiffinnir fel eiddo lleol yn ei thargedau cynhyrchu, er mwyn cau unrhyw fylchau. Dylai hefyd nodi sut y bydd y diffiniad mwy llym hwn o berchnogaeth leol yn cael ei ddefnyddio i gyrraedd y targed o gynhyrchu 1.5GW o ynni lleol erbyn 2035.

**Argymhelliad 5.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi ei strategaeth ar gyfer cyflwyno targedau neu gwotâu ar gyfer defnyddio gweithwyr a chontractwyr lleol wrth ddatblygu gosodiadau ynni adnewyddadwy a'u cydrannau a'u seilwaith cysylltiedig, gan gynnwys trafodaethau â Llywodraeth y DU i ddiwygio'r cynllun Contractau ar gyfer Gwahaniaeth, a all fod yn rhwystr i'r defnydd o lafur a chadwyni cyflenwi lleol.

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru roi diweddariadau rheolaidd i'r Pwyllgor ar y cynnydd y mae Ynni Cymru a Trydan Gwyrdd Cymru yn ei wneud yn erbyn eu nodau a'u hamcanion a sut y byddant yn gweithio gyda GB Energy.

# 4. Blaenoriaethau ynni adnewyddadwy

Mae'r sector ynni adnewyddadwy yn tyfu'n gyflym ac mae ganddo botensial mawr i gyflymu'r broses o ddatgarboneiddio ein heconomi a chreu swyddi newydd o ansawdd uchel. Fodd bynnag, bydd angen cynllunio strategol a seilwaith a buddsoddiad ar y diwydiant os yw am gyrraedd ei lawn botensial.

## Datblygu rhaglen o brosiectau ynni adnewyddadwy

**51.** Pwysleisiodd sefydliadau'r sector ynni adnewyddadwy bwysigrwydd cyflenwad cyson o brosiectau ar gyfer y sector. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd RenewableUK Cymru:

> *"The green and net zero economy concepts are both built on a foundation of renewable energy generation. To realise these economic opportunities, a long-term pipeline of projects and certainty for timely delivery is crucial."*[47]

**52.** Rhybuddiodd Vattenfall, cwmni ynni adnewyddadwy:

> *"The main barrier to preventing Wales from making the most of opportunities in the green economy is a failure to secure a low-carbon deployment pipeline. Without projects to deploy, Wales will not secure the benefits of moving to a greener economy."*[48]

**53.** Aeth ymlaen i ddweud bod angen mynd i'r afael â'r rhwystrau hyn yn strategol, ac yn gyfannol oherwydd bod gan bob un rwystr ar fuddsoddiad.

**54.** Cytunodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg ar y pryd, Jeremy Miles As, fod rhaglen o brosiectau'n bwysig. Roedd yn cytuno bod rhaglen RenewableUK Cymru mewn gwirionedd yn bwynt da iawn, ac nad diffyg adnoddau oedd yr her yn y sector. Dywedodd wrth yr Aelodau fod awydd

[47] RenewableUK Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig (Saesneg yn unig)
[48] Vattenfall, tystiolaeth ysgrifenedig (Saesneg yn unig)

buddsoddi,[49] ond er mwyn i ddatblygwyr ac eraill ymrwymo i ddegau lawer o filiynau o bunnoedd, bod angen dau beth:

- cyfundrefn gynllunio a chydsynio sy'n gyson ag amcanion polisi eraill; ac
- amlygrwydd rhaglen o brosiectau dros nifer o flynyddoedd.

**55.** Dangosodd yr Ysgrifennydd Cabinet ar y pryd hyn drwy ddweud:

> *"That is the reason, in the offshore space, why we've been pressing the Crown Estate to be clear not just about its current leasing round, but the future leasing round for the other, I think, 12 GW capacity. People want to know that they can invest, that they have projects that go beyond the next three or four years, if they're going to be putting in many tens of millions of pounds upfront. That's why that conversation is so important."*[50]

**56.** Ysgrifennodd Ystad y Goron at y Pwyllgor yn nodi manteision datblygiadau yn y Môr Celtaidd. Tynnwyd sylw at y ffaith y gall eu Rownd Prydlesu Môr Celtaidd 5 (4.5gw) ar hyn o bryd greu hyd at 5,300 o swyddi yn ystod y cyfnod adeiladu, a darparu £1.4 biliwn o fuddion economaidd i'r DU. Nodwyd y byddai'n parhau i weithio ochr yn ochr â Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid ehangach i drafod sut y gall ein gwaith gefnogi'r economi werdd a lliniaru'r rhwystrau y mae Cymru yn eu hwynebu ar hyn o bryd. Dywed hefyd ei fod yn edrych ymlaen at gefnogi'r Pwyllgor yn ei waith.[51]

## Heriau cynllunio

**57.** Cafodd yr Aelodau dystiolaeth am Ddeddf Seilwaith (Cymru) 2024.[52] Mae Llywodraeth Cymru yn dweud bod y Ddeddf yn:

> *"Moderneiddio ac yn symleiddio'r broses ar gyfer datblygu prosiectau seilwaith arwyddocaol yng Nghymru drwy sefydlu proses gydsynio unigol ar gyfer rhai mathau o brosiectau seilwaith mawr. Bydd hyn yn cyflymu'r broses gydsynio ar gyfer prosiectau mawr ar y tir neu yn y*

[49] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 26 Mehefin 2024, paragraff 149
[50] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 26 Mehefin 2024, paragraff 149
[51] Llythyr gan Ystad y Goron at Gadeirydd y Pwyllgor, 11 Medi 2024 (Saesneg yn unig)
[52] Deddf Seilwaith (Cymru) 2024

> *môr tiriogaethol, gan greu mwy o gysondeb a sicrwydd o ran gallu Cymru i ddenu prosiectau seilwaith yn y dyfodol."*

**58.** Er bod tystion yn cytuno bod y Ddeddf yn symleiddio'r broses gydsynio ar gyfer datblygiadau ynni adnewyddadwy, roedd pryderon ynghylch diffyg capasiti yn y system gynllunio. Dywedodd RenewableUK Cymru:

> *"Consenting and planning delays pose significant risk to our renewable energy and net zero ambitions in Wales – which will inevitably impact related economic opportunities. With targets to reach 70% of electricity demand from renewables by 2030 and 100% by 2035, timely consenting and planning will be crucial."*[53]

**59.** Un o'r tair blaenoriaeth allweddol yr awgrymodd RenewableUK Cymru y dylai Llywodraeth Cymru ganolbwyntio arnynt i wneud y mwyaf o'r cyfleoedd economaidd posibl o'r economi werdd oedd datgloi rhagor o adnoddau cydsynio a chynllunio. Amlygodd yr hyn yr oedd yn ei weld fel diffyg adnoddau cynllunio ar draws cyrff cyhoeddus Cymru, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru ac awdurdodau lleol, ac roedd yn cynnig rhybudd llym:

> *"We need to more than double the best build rate of energy infrastructure we've achieved in the past 50 years, and we need to do that every year for the next 11 years. That's really quite an undertaking, and unless we have the people behind it in order to do that, we're going to miss our targets. So, we need to see accelerated decision making, more decisions being made, and decisions made efficiently."*[54]

**60.** Dywedodd Diwydiant Sero Net Cymru wrth yr Aelodau er mwyn symleiddio'r gwaith cynllunio a chydsynio:

> *"We're all seeing this burning platform; we now need to find a way to make that work, and I think the only way to do that is by allowing more private resources to enter into that space, to de-risk that, to give that much more adequate, certain timelines, because that certainty*

[53] RenewableUK Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig (Saesneg yn unig)
[54] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 21 Mawrth 2024, paragraff 123

> *of timeline is incredibly important when it comes to investor confidence."*[55]

**61.** Nododd yr Ysgrifennydd Cabinet ar y pryd, Jeremy Miles AS, sut y mae Llywodraeth Cymru yn ymateb i'r pryderon hyn:

> *"It's partly about changes to planning and consenting, so the infrastructure legislation will change things. The commitment of additional resources to Natural Resources Wales, so that they have more capacity. There is a good discussion happening with the sector based on a pilot, effectively, or at least a project, in south-west Wales, where developers have provided funding to Net Zero Industry Wales in order for consenting bodies to draw on that funding when they need more capacity."*[56]

**62.** Aeth ymlaen i ddweud:

> *"… we are working productively on a mechanism where we can ask developers to contribute resource that consenting bodies can draw on when they need more capacity, at peak times or when there are particular pinch points, but doing that in a way where there's an intermediary, so there's no link between the two. If we can do that, that will enable us to increase planning and consenting capacity and make those decisions faster, and be better able to respond to the level of demand."*

**63.** Mewn sesiwn ar ddyfodol dur Cymru, dywedodd Ysgrifennydd presennol y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio, Rebecca Evans AS, wrth y Pwyllgor:

> *"In the last couple of weeks, I've made a series of announcements in terms of how we're looking to bolster and support local planning teams, including potentially looking at dedicated support for those authorities that will see the greatest impact on their planning services … We're also exploring how local authorities can better work on a regional basis to access some of those specialist planning services and working through Net Zero Industry Wales also to explore ways in which the industry itself could put … funding into a secure pot, which*

[55] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 21 Mawrth 2024, paragraff 130
[56] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 26 Mehefin 2024, paragraff 152

> *can then go again to supporting the planning teams to try to make sure that these projects are moved forward in a timely fashion. So, there's lots happening in the planning space to speed up those applications, but we are aware of the particular pressures in Neath Port Talbot, and are looking to work with them."*[57]

## Cysylltiadau'r grid

**64.** Amlygodd y datblygwyr heriau gyda'r rhwydwaith grid ynni ac yn arbennig cael cysylltiadau grid. Dywedodd RenewableUK Cymru a Statkraft UK:

> *"Our current insufficient grid network in Wales is a significant barrier to maximising the benefits of the green economy. With electricity demand set to more than double, there is real urgency to develop the infrastructure and capitalise on the potential renewable energy opportunities across Wales and the Irish and Celtic Seas. Grid buildout needs to happen at pace in parallel with generation."*[58]

**65.** Nododd y Sefydliad Materion Cymreig mai her allweddol i Gymru yw:

> *"Weak grid infrastructure and planning delays have been noted by industry as significant constraints impacting deployment and construction of renewable energy in Wales. Weak grid infrastructure is a key inhibitor that prevents Wales from making the most of the opportunities within the green economy, particularly within decarbonising our energy sector".*[59]

**66.** Nododd Ynni Cymunedol Cymru fod oedi o ran amser a chost cysylltiadau grid yn rhwystrau sylweddol i gymunedau sydd am fod yn rhan o'r broses o ddatgarboneiddio'r system ynni. Nodwyd y gall systemau ynni lleol leihau'r pwysau ar y grid, ac y byddai mwy o gyllid cychwyn busnes yn helpu mwy o brosiectau i gychwyn.[60]

**67.** Fodd bynnag, gan nad yw'r grid wedi'i ddatganoli, mae cyfyngiadau o ran yr hyn y gall Llywodraeth Cymru ei gyflawni. Dywedodd RenewableUK Cymru ei fod yn gwerthfawrogi'n llwyr fod y grid allan o ddwylo Llywodraeth Cymru, fodd

[57] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 20 Tachwedd 2024, paragraff 97
[58] RenewableUK Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig (Saesneg yn unig)
[59] Y Sefydliad Materion Cymreig, tystiolaeth ysgrifenedig (Saesneg yn unig)
[60] Ynni Cymunedol Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig (Saesneg yn unig)

bynnag, mae'r pŵer cynnull sydd gan Lywodraeth Cymru, ac er clod i Lywodraeth Cymru, peth o'r gwaith y mae wedi bod yn ei wneud, gan gynnwys yr adroddiad 'Grid Ynni'r Dyfodol Cymru' adroddiad, yn gosod sylfaen glir iawn ar gyfer hyn.[61]

## Cymorth i borthladdoedd

**68.** Bydd porthladdoedd yn chwarae rhan bwysig yn yr economi werdd, yn enwedig o ran cynhyrchu ynni drwy ffermydd gwynt arnofiol ar y môr (FLOW). Roedd tystiolaeth ysgrifenedig RenewableUK Cymru yn galw am fuddsoddiad ar unwaith i gynyddu capasiti a gallu porthladdoedd sy'n cefnogi prosiectau gwynt ar y môr. Dywedodd:

> *"Ports upgrades delivered on time are crucial for maximising the benefits of offshore wind projects. There is a real risk that offshore projects could be delivered without maximising the benefits to Wales if the ports and supply chain are not ready in time."*[62]

**69.** Tynnodd Ynni Morol Cymru sylw hefyd at yr angen am fuddsoddiad a'r effaith y gall hynny ei chael ar economi Cymru.[63] Dywedodd wrth yr Aelodau fod angen i'r porthladdoedd fod yn barod ar gyfer FLOW. Am bob £1 sy'n cael ei gwario mewn porthladdoedd, dywedodd bod £3 yn mynd yn ôl i economi Cymru, ac felly nid oes sail dros beidio â chefnogi'r porthladdoedd yng Nghymru. Tynnodd Ynni Morol Cymru sylw hefyd at y risg bod Ffrainc yn paratoi ar gyfer yr un cyfle hwn, a rhybuddiodd fod angen i Gymru edrych ar yr hyn y mae'n ei wneud a gofyn, 'Allwn ni ei gyfateb?' neu o leiaf wneud cynllun i geisio cymryd cymaint o ran.

**70.** Ar 19 Mehefin 2024, siaradodd yr Ysgrifennydd Cabinet ar y pryd, Jeremy Miles AS, yn y gynhadledd fyd-eang ar ynni gwynt ar y môr ym Manceinion. Dywedodd datganiad i'r wasg Llywodraeth Cymru cyn ei araith y byddai gwaith i gefnogi'r sector ynni gwynt arnofiol ar y môr yn:

> *"Dechrau drwy ddatblygu a gwella galluogrwydd ar y môr yn y porthladdoedd sydd wedi eu lleoli'n strategol yng Nghaergybi, Mostyn, Sir Benfro a Phort Talbot, gyda phob un ohonynt eisoes wedi chwarae rhan ganolog yn llwyddiannau gwynt ar y môr Cymru."*[64]

---

[61] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 21 Mawrth 2024, paragraff 109
[62] RenewableUK Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig (Saesneg yn unig)
[63] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 21 Mawrth 2024, paragraff 196
[64] Llywodraeth Cymru, Cymru i arwain y chwyldro ynni gwyrdd gyda buddsoddiadau a mentrau uchelgeisiol, 19 Mehefin 2024

## Ein barn ni

Mae'r sector ynni adnewyddadwy yn wynebu nifer o rwystrau y bydd angen eu goresgyn i gyflawni'r broses cynhyrchu ynni sydd ei hangen ar Gymru, a'r manteision economaidd ac amgylcheddol dilynol. Er nad yw rhai meysydd, megis y Grid Cenedlaethol, wedi'u datganoli, mae'r system gynllunio yn ysgogiad allweddol y mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol amdano. Mae cyfrifoldebau cyfunol Ysgrifennydd presennoly Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio yn cynnig y potensial ar gyfer dull cydlynol a chydgysylltiedig o fynd i'r afael â hyn.

Ers i'n hymchwiliad orffen cymryd tystiolaeth, mae'r Ysgrifennydd Cabinet, Rebecca Evans AS, wedi nodi nifer o gamau y mae'n bwriadu eu cymryd i sicrhau yr ymdrinnir â cheisiadau cynllunio yn gyflymach. Rydym yn croesawu bwriad yr Ysgrifennydd Cabinet i ysgogi newid, ond hoffem weld rhagor o fanylion am sut y mae'n bwriadu cyflawni hyn.

Rydym wedi clywed bod diffyg rhaglen o brosiectau ynni adnewyddadwy yn rhwystr allweddol i wneud y gorau o'r cyfleoedd economaidd posibl sydd ar gael. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda phartneriaid i ddatblygu cynllun, i roi sicrwydd i fuddsoddwyr, a helpu i adeiladu diwydiant cryf, cynaliadwy sy'n darparu cyflogaeth o ansawdd uchel.

**Casgliad 4.** Mae seilwaith rhwydwaith pŵer gwan yn fater y mae'n rhaid mynd i'r afael ag ef er mwyn cefnogi'r broses o ddatgloi potensial economi werdd a thwf gwyrdd Cymru.

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Llywodraeth y DU, Ystad y Goron a diwydiant i ddatblygu a chyhoeddi rhaglen o brosiectau ynni adnewyddadwy sy'n cael ei diweddaru'n rheolaidd.

**Argymhelliad 8.** Dylai Llywodraeth Cymru roi rhagor o fanylion am sut y mae'n bwriadu gweithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael â'r diffyg adnoddau yn y system gynllunio, fel bod penderfyniadau o ran caniatâd yn cael eu gwneud yn gyflymach ar gyfer ceisiadau ynni adnewyddadwy.

**Argymhelliad 9.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y bydd yn blaenoriaethu buddsoddiad mewn porthladdoedd, a chefnogi porthladdoedd Cymru yn eu hymdrechion i gael mynediad at gyllid gan Lywodraeth y DU, megis y Cynllun Buddsoddi mewn Gweithgynhyrchu Gwynt ar y Môr.

# 5. Pontio teg a gwaith teg

Mae newid i economi di-garbon yn cyflwyno risgiau a chyfleoedd o ran gwaith teg. Mae'r trawsnewid hwn yn creu swyddi newydd o ansawdd uchel mewn diwydiannau sy'n dod i'r amlwg, gan ei gwneud yn amser delfrydol i sicrhau bod y swyddi hyn yn hygyrch i ran eang o'r gweithlu, gan gynnwys y rhai sy'n gweithio mewn sectorau sy'n cael gwared ar swyddi.

Fodd bynnag, nid yw lleoliad y swyddi newydd hyn yn sefydlog, ac efallai y bydd yr ardaloedd diwydiannol presennol angen cymorth i ddenu diwydiannau yfory.

## Sicrhau pontio teg

**71.** Clywodd yr Aelodau ei bod yn bwysig bod gwaith yn cael ei wneud i sicrhau bod pawb yn deall yr argyfwng hinsawdd ac yn 'llythrennog mewn carbon'. Teimlai Dr Alison Parken o Ysgol Fusnes Caerdydd y byddai hyn yn sicrhau cefnogaeth ar gyfer y newid i sero net. Dywedodd wrth yr Aelodau:

> *"Everybody needs to understand what this is about to take some of the fear out of it and to take some of the paralysis out of it, and take some of the feeling of being done to when policies are instituted."*[65]

**72.** Ym mis Rhagfyr 2023, lansiodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar y fframwaith Pontio Teg.[66] Clywodd y Pwyllgor fod dull cydgysylltiedig o bontio teg yn bwysig, ond teimlai Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol y dylai hyn fod yn seiliedig ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Dywedodd Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru wrth yr Aelodau:

[65] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 21 Mawrth 2024, paragraff 410
[66] Llywodraeth Cymru, Fframwaith Pontio Teg

> *"We've talked about using the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 as a governance framework for the just transition, because it enables this collaboration, this longer term thinking, around a more holistic set of principles. But we also recognise that it's not just about the sorts of governance frameworks that you put in place; it's actually the delivery and the outcomes that people feel on the ground that will make the difference as to whether a transition is just or not."*[67]

**73.** Roedd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn cefnogi'r ddadl hon, a dywedodd wrth yr Aelodau na ddylid cymhlethu pethau, ac y dylid defnyddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r pum ffordd o weithio fel sail i'r fframwaith hwnnw a'r canllawiau hynny.[68]

**74.** Roedd gan gynrychiolwyr undeb farn ychydig yn wahanol. Dywedodd TUC Cymru mewn perthynas â'r newid i sero net:

> *"… not just a future generations challenge in a way; it's almost the current generation in five to 10 years that we're thinking about. If I think about the workforce at Tata and Llanwern, it's what's going to happen in that next decade that I think is also driving the panic, and that's where I think we look very much to the Welsh Government and the UK Government, and their responsibility there."*[69]

**75.** Roedd y cynrychiolwyr undeb y clywodd yr Aelodau ganddynt yn agored i weithio gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Fodd bynnag, roedd Prospect Cymru a TUC Cymru ill dau yn cefnogi sefydlu Comisiwn Pontio Teg tebyg i'r un sy'n gweithredu yn yr Alban. Dywedodd Prospect Cymru wrth yr Aelodau:

> *"All the areas that you're looking for answers for are examined by Just Transition Scotland. …they have a really broad membership that takes in the needs across all the stakeholders to develop it for their country as an independent advisory body providing scrutiny and advice on how to deliver a just transition to low carbon in Scotland. Because it is made up of a broad representation of stakeholders' interests, I think it*

[67] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 21 Mawrth 2024, paragraff 414
[68] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 21 Mawrth 2024, paragraff 417
[69] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 13 Mehefin 2024, paragraff 147

> *is a very good model that we should use, even if our scope would be more limited."*[70]

**76.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet ar y pryd, Jeremy Miles AS, wrth y Pwyllgor fod ymatebion i'r ymgynghoriad yn dweud wrtho fod ymdeimlad cryf yn hynny o beth ynghylch ymgysylltu â rhanddeiliaid yn ehangach, gwneud yn siŵr bod cymunedau'n deall beth yn union yw pontio a beth allai'r effeithiau ei olygu iddynt hwy. Aeth ymlaen i ddweud bod Llywodraeth Cymru, o ganlyniad i'r adborth i'r ymgynghoriad, yn gweithio ar ganllawiau penodol, pecyn cymorth o bethau ymarferol y gall cyflogwyr a sefydliadau edrych arnynt wrth iddynt drosglwyddo i'r economi fwy cynaliadwy y mae'n amlwg ei angen.[71]

**77.** Nid oedd yr Ysgrifennydd Cabinet ar y pryd yn gweld yr angen i sefydlu Comisiwn Pontio Teg i Gymru. Dywedodd wrth yr Aelodau fod dull gweithredu blaenorol, sef Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, sydd, mewn un ystyr, â phontio yn ganolog iddi. Fodd bynnag, ychwanegodd:

> *"One of the things we heard in the response to the just transition framework was the need for a sophisticated understanding of what just transition means to be integrated into the work of the various fora that we have doing various things across Wales, in a way that, perhaps, isn't yet there. So, I think my own view is doing that is the critical thing, so that Public Services Boards, and all our partnership fora, really, really have a clear and good understanding of what this means, because, in a sense, it's an organising principle for the whole of society, really, isn't it."*[72]

## Cefnogi lleoedd a chymunedau fel rhan o bontio teg

**78.** Clywodd yr Aelodau na fydd y newid i sero net yn effeithio'n gyfartal ar gymunedau. Rhybuddiodd y Sefydliad Materion Cymreig:

> *"The transition to net zero will have uneven effects across technologies and communities in Wales. The Welsh Government should focus their*

[70] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 13 Mehefin 2024, paragraff 141
[71] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 26 Mehefin 2024, paragraff 193
[72] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 26 Mehefin 2024, paragraff 203

> *attention on supporting workers from economically disadvantaged communities and those transitioning out of carbon intensive work."*[73]

**79.** Rhoddodd Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru rybudd tebyg:

> *"Without any intervention, the market will dictate the changes within industry and in education and skills provision that are needed to reach net zero. This would be an undesirable outcome: not only is it unlikely to lead to a just transition, but it may result in certain industries leaving Wales and to the offshoring of future emissions. Intervention to support a just transition should therefore focus on supporting industry to decarbonise within Wales and on directly and indirectly supporting workers where they need to retrain or learn new skills."*[74]

**80.** Cynigiodd Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru rai awgrymiadau y teimlai y dylai Llywodraeth Cymru eu hystyried i liniaru'r effaith hon. Roedd hyn yn cynnwys:

- Cymorth wedi'i dargedu ar gyfer datblygu sgiliau (trafodir sgiliau ac ailhyfforddi fel rhan o bontio teg yn fanylach yn adran 5 o'r adroddiad hwn);
- Ffyrdd o gymell busnesau i leoli mewn ardaloedd penodol yr effeithir arnynt gan y pontio;
- Seilwaith a chysylltiadau trafnidiaeth da; a
- Chymorth ehangach i gymunedau yr effeithir arnynt gan golli diwydiannau allweddol, fel prosiectau cymunedol a darpariaeth iechyd meddwl.[75]

## Cydraddoldeb a phontio teg

**81.** Clywodd yr Aelodau fod angen mwy o waith i sicrhau cyfnod pontio teg, fel y bydd y cyfleoedd a ddaw yn sgil trosglwyddo i sero net ar gael i bawb. Dywedodd Prospect Cymru wrth yr Aelodau:

---

[73] Y Sefydliad Materion Cymreig, tystiolaeth ysgrifenedig (Saesneg yn unig)
[74] Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig (Saesneg yn unig)
[75] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 21 Mawrth 2024, paragraff 425

> *"Too little has been done to ensure clean energies are accessible to a diverse workforce. Industry data shows that one in five offshore wind workers are women, and fewer than one in 10 are people of colour."*[76]

**82.** Dywedodd Dr Alison Parken wrth y Pwyllgor fod yn rhaid i rywbeth newid am y ffordd y mae busnesau adnewyddadwy yn gweithredu oherwydd dywed heb ddod â phobl i mewn na fyddent fel arfer yn dewis y sectorau hyn, na fydd yn bosibl cael y sgiliau sydd eu hangen. Eglurodd:

> *"In a sense, these industries have not been a rational choice for women or people from ethnic minorities, or disabled people, because they've not felt welcome there. So, as we are transitioning to changing the energy sector, what we have to do is make sure that those workplaces operate differently—that they are properly welcoming and inclusive, and that they start from day one bringing people in in a way that allows people with difference to make a difference in the culture that they're working in."*[77]

**83.** Er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r bwlch amrywiaeth, awgrymodd Dr Parken newid yr hyfforddiant, pwy sy'n darparu'r hyfforddiant, pryd mae'r hyfforddiant yn cael ei ddarparu, sut mae'n cael ei ariannu, i ddod â phobl i mewn nad ydynt wedi gweld y sectorau hynny fel sectorau sy'n draddodiadol gyfeillgar.

**84.** Galwodd y Sefydliad Materion Cymreig ar Lywodraeth Cymru i fabwysiadu lens rhywedd i ailhyfforddi a datblygu sgiliau ar gyfer swyddi gwyrdd heddiw ac yn y dyfodol. Dywed y dylai hyn gynnwys cefnogi menywod a merched i'r gyrfaoedd hyn, a gweithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael â rhwystrau i hyn.[78]

## Gwaith teg a phontio teg

**85.** Clywodd yr Aelodau alwadau am osod gofynion gwaith teg ar gyflogwyr sy'n ceisio cymorth gan Lywodraeth Cymru i greu swyddi gwyrdd. Rhoddodd TUC Cymru enghraifft o'r diwydiant adeiladu niwclear a fyddai'n gweithio'n dda yn eu barn hwy i gefnogi gwaith teg yn ystod y cyfnod pontio:

> *"… in the nuclear construction industry, where we've got sector agreements. So, you've got a pot of funding, and then you've got a*

[76] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 13 Mehefin 2024, Paragraff 112
[77] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 21 Mawrth 2024, paragraff 420
[78] Y Sefydliad Materion Cymreig, tystiolaeth ysgrifenedig (Saesneg yn unig)

*union-negotiated sector agreement, so you know the jobs that are going to result from that spend, you know the pay rates for those jobs, the other terms and conditions. I would want to see public spend like that, where it's a pot of investment aligned to particular negotiated employment outcomes. We are very far away from that, but that's the dream I've got for that."*[79]

## Ein barn ni

Mae pontio i sero net yn debygol o gael effaith fawr ar yr economi a'r farchnad swyddi. Gall yr effaith hon naill ai gael ei rheoli'n strategol gan arweinwyr allweddol fel Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU neu ei gadael i'r farchnad yn unig. Os cymerir y dull anghywir, bydd yr effaith yn anrhagweladwy, ac o bosibl yn niweidiol i rai o'n cymunedau a'n gweithwyr sydd fwyaf agored i niwed.

Fodd bynnag, os bydd Llywodraeth Cymru, gan weithio gyda diwydiant, undebau a chymunedau, yn achub ar y cyfleoedd a gyflwynir gan bontio ac yn darparu arweinyddiaeth, bydd hyn yn cyfyngu ar yr aflonyddwch posibl i weithwyr a chymunedau.

Bydd angen i Lywodraeth Cymru adeiladu clymblaid o'r rhai sy'n barod i gyflawni cyfnod pontio teg. Bydd hyn yn gofyn am ddull gweithredu hyblyg, llywodraeth gyfan sy'n diwallu anghenion cymunedau unigol. Wrth adeiladu'r glymblaid honno rhaid iddynt fod yn ymwybodol o'r cyfle gwirioneddol hwn i wella cyfleoedd grwpiau sydd ar yr ymylon a chreu swyddi gwell a fydd yn gwella cymunedau ledled Cymru. Bydd sgiliau ac ymdrechion ailhyfforddi yn chwarae rhan allweddol yn hyn, a byddwn yn trafod y rhain yn fanwl yn y bennod nesaf.

Er nad ydym yn credu bod angen sefydlu corff cyhoeddus arall – sef Comisiwn Pontio Teg i Gymru – i gyflawni hyn, credwn fod yn rhaid i Lywodraeth Cymru edrych ar sut y bydd yn sicrhau pontio teg gyda'r ysgogiadau sydd ganddi ar hyn o bryd.

**Argymhelliad 10.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda phartneriaid i ddatblygu cynlluniau gweithredu pontio teg i gefnogi'r cymunedau a'r gweithwyr sydd fwyaf agored i niwed o ran effeithiau negyddol pontio i sero net.

[79] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 13 Mehefin 2024, paragraff 175

**Argymhelliad 11.** Dylai Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU weithio gyda phartneriaid, gan gynnwys diwydiant a sefydliadau addysgol i fynd i'r afael â'r bwlch mewn amrywiaeth yn y gweithlu ynni adnewyddadwy. Gallai hyn gynnwys datblygu llwybrau addysg a hyfforddiant mwy cynhwysol i rolau ynni adnewyddadwy, ac arwain gwaith i sicrhau bod partneriaid yn gallu cyfrannu at newid diwylliannol mewn gweithleoedd ynni sy'n eu gwneud yn fwy deniadol i grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol.

# 6. Sgiliau

**86.** Ym mis Chwefror 2023, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gynllun gweithredu 'Cymru gryfach, decach a gwyrddach: Cynllun Gweithredu Sgiliau Sero Net'.[80] Mae gan y Cynllun Gweithredu 36 o gamau gweithredu a 7 maes blaenoriaeth sy'n cynnwys y canlynol:

- meithrin dealltwriaeth gyffredin o sgiliau sero net;
- darparu dulliau newydd o dyfu ein gweithlu â sgiliau;
- ystyried opsiynau i gryfhau ein system sgiliau; a
- deall cyfleoedd ac opsiynau gyrfaoedd.

**87.** Mae Atodiad 1 y Cynllun Gweithredu yn crynhoi'r anghenion a'r bylchau sgiliau yn yr wyth sector allyriadau yng Nghymru: cynhyrchu trydan a gwres; adeiladau preswyl; trafnidiaeth; y sector cyhoeddus; diwydiant a busnes; defnydd tir, newid defnydd tir a choedwigaeth; amaethyddiaeth; a rheoli gwastraff. Mae'r Atodiad yn nodi bod "angen rhagor o wybodaeth ar draws pob sector yng Nghymru fel y gellir llunio llwybr trywydd sy'n pennu beth yw'r sefyllfa bresennol o ran sgiliau ar gyfer pob sector".

**88.** Mae'r Cynllun Gweithredu yn dweud bod "lefel o ddryswch a diffyg dealltwriaeth ymhlith busnesau, gweithwyr a'r rhai sy'n gadael ysgol am yr hyn a olygir gan swyddi gwyrdd/sero net a'r sgiliau sydd eu hangen". Mae'r Cynllun Gweithredu hefyd yn dweud y bu "gostyngiad yn y buddsoddiad mewn hyfforddiant i weithwyr o ganlyniad i'r heriau economaidd presennol".

**89.** Cam gweithredu 12 o'r Cynllun Gweithredu yw "cyflawni rhaglen beilot Cyfrifon Dysgu Personol Sero Net, gwerth £2m, a sefydlwyd dros gyfnod o ddwy flynedd i helpu unigolion i uwchsgilio neu ailsgilio mewn sectorau sy'n gofyn am lefel uchel o sgiliau sero net". Dywed y bydd y cynllun peilot yn "annog menywod i ddysgu sgiliau sero net". Yn y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2024-25, torrwyd £7.2 miliwn o'r Cyfrifon Dysgu Personol.

## Heriau sgiliau

**90.** Amlygodd sawl tyst bryderon ynghylch prinder sgiliau. Dywedodd Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru wrth y Pwyllgor fod busnesau bach yng

[80] Llywodraeth Cymru, Cymru gryfach, decach a gwyrddach: sgiliau sero net, Chwefror 2023

Nghymru yn cael trafferth cael gafael ar staff digon medrus ar hyn o bryd,[81] a dywedodd RenewableUK Cymru mai un o'r prif bryderon ynghylch lefel yr her sgiliau yw'r prinder sgiliau a llafur arbenigol.[82] Dywed Onward fod prinder sgiliau yn cael ei nodi'n aml fel problem ar gyfer pontio gwyrdd ym mhob sector, bron â bod.[83]

**91.** Dywedodd Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru fod busnesau bach yng Nghymru yn wynebu'r her o ddiffyg cyfatebiaeth gynyddol rhwng y sgiliau yn y system addysg a'r rhai sydd eu hangen ar fusnesau.[84] Ychwanegodd fod y dilema strwythurol hwn yn deillio o gyfuniad o ffactorau, gan gynnwys diffyg gweledigaeth wrth ragweld gofynion sgiliau a methiant i addasu addysg a hyfforddiant galwedigaethol yn ddigonol i fynd i'r afael ag anghenion esblygol y farchnad lafur.

**92.** Dywedodd ColegauCymru wrth y Pwyllgor fod deall pa sgiliau sydd eu hangen, faint ac erbyn pryd mewn gwahanol feysydd yn her. Roedd o'r farn bod angen strategaeth addysg a hyfforddiant galwedigaethol i Gymru gan Lywodraeth Cymru i alinio anghenion addysg a hyfforddiant galwedigaethol â blaenoriaethau economaidd a diwydiannol.[85]

**93.** Awgrymodd Ynni Morol Cymru fod dwy elfen i ddatrys y broblem o ran prinder sgiliau: yr angen i gael rhaglen, i warantu bod prosiectau yn dod drwodd, ac ymwybyddiaeth. Awgrymwyd fod yn rhaid i ymwybyddiaeth ddechrau yn yr ysgolion ac yna rhaid i hynny ddatblygu, gan sicrhau bod plant yn cymryd y pynciau gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg cywir.[86]

**94.** Amlygodd tystion, gan gynnwys y Ffederasiwn Busnesau Bach ac Ynni Morol Cymru bwysigrwydd cysylltu addysg â diwydiant, er mwyn sicrhau y gellir ystyried gofynion diwydiant wrth lunio cyrsiau.[87] Awgrymodd Diwydiant Sero Net Cymru:

> *"… it all comes back to a very clear industrial strategy, in which skills is a key pillar."*[88]

[81] Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig (Saesneg yn unig)
[82] RenewableUK Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig (Saesneg yn unig)
[83] Onward, tystiolaeth ysgrifenedig (Saesneg yn unig)
[84] Y Ffederasiwn Busnesau Bach, tystiolaeth ysgrifenedig (Saesneg yn unig)
[85] ColegauCymru, tystiolaeth ysgrifenedig (Saesneg yn unig)
[86] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 21 Mawrth 2024, Cofnod y Trafodion, paragraffau 156-157
[87] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 21 Mawrth 2024, Cofnod y Trafodion, paragraffau 148 a 157
[88] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 21 Mawrth 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 160

**95.** Cyfeiriodd Llywodraeth Cymru at un o'r prif rwystrau i Gymru wneud y mwyaf o'r cyfleoedd a gynigir gan yr economi werdd fel "digon o weithwyr medrus a phrofiadol mewn meysydd fel gosod ynni adnewyddadwy, effeithlonrwydd o ran adnoddau ac adfer natur."[89]

**96.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet ar y pryd, Jeremy Miles AS, wrthym fod un o adolygiadau gweddnewid byr Llywodraeth Cymru yn ymwneud â sut y gellir cysylltu polisi â newid ar lawr gwlad o ran sgiliau'r dyfodol.[90]

**97.** Tynnodd yr Ysgrifennydd Cabinet ar y pryd hefyd sylw at ymgynghoriad diweddar Llywodraeth Cymru ar Sgiliau'r Sector Sero Net, a ddaeth i ben ddiwedd 2023. Nododd fod drafft cyntaf o fap ffordd sgiliau wedi'i gynhyrchu, a fyddai'n destun nifer o weithdai drwy'r haf. Ychwanegodd:

> *"The key thing is that those road maps need to be iterative and able to be adjusted to reflect the pace of change in the sector, as much as anything else, and so that we can be alive to the response from investors, from industry, from trade unions or the workforce about what more support, what more guidance they need. So, there will be a road map for each of the eight emissions sectors that we've talked about in the plan, and that will provide what I hope is an accessible visual representation of how businesses need to respond. I'll also be having a set of bilateral discussions with Cabinet colleagues who've got a particular interest, so that we make sure that there's a cross-Government level of working. And I'm planning at this point to publish the first iterations of the plans when we're back in the autumn."*[91]

**98.** Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio, Rebecca Evans AS, yn ystod y gwaith craffu cyffredinol y bydd Jack Sargeant AS, y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaethau Cymdeithasol yn:

> *"… leading on the green skills review. That will have a longer timescale in the sense that we've already got our Net-Zero Skills Action Plan, we've got the emission sector skills overview, so there's already recent work going on in that particular space. But they'll all help us focus then through the economic mission and the First Minister's priorities,*

[89] Llywodraeth Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig
[90] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 26 Mehefin 2024, Paragraff 146
[91] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 26 Mehefin 2024, Paragraff 178

> *and also I think will fit in really well with the industrial strategy as well."*[92]

## Ailhyfforddi'r gweithlu presennol fel rhan o'r cyfnod pontio teg

**99.** Dywedodd Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru er y bydd llawer o rolau swyddi yn newid o ganlyniad i gyfnod pontio gwyrdd, yng Nghymru bydd hyn yn bennaf yn cynnwys newid setiau sgiliau o fewn swyddi presennol yn hytrach na chreu mathau newydd o swyddi. Dywedodd mai ailsgilio ac ailhyfforddi gweithwyr fydd yr heriau o bosibl.[93]

**100.** Rhybuddiodd Make UK nad yw'r ddarpariaeth ar gyfer uwchsgilio ac ailhyfforddi, er ei bod yn bwysig, ar ei phen ei hun yn datrys y prinder sgiliau sero net a sgiliau eraill yn y gweithlu nac yn llenwi'r swyddi gwag presennol.[94]

**101.** Cytunodd Cyfoeth Naturiol Cymru, gan ddweud y bydd angen cyfuniad o swyddi newydd ac uwchsgilio swyddi presennol. Awgrymodd fod ailsgilio mewn diwydiannau etifeddol yn gyfle.[95]

**102.** Cred ColegauCymru fod angen dulliau newydd o uwchsgilio a datblygu sgiliau. Dywed fod newid i economi werdd yn gofyn am y canlynol:

> *"reskilling for immediate skills gaps through employer training and flexible provision to enable individuals to respond to opportunities in the labour market."*[96]

### Capasiti o fewn y system addysg a sgiliau

**103.** Cred Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru nad oes gan y system addysg a sgiliau y capasiti i ailsgilio gweithwyr presennol ar hyn o bryd. Dywed fod:

> *"… vicious cycle where courses are not provided due to a perceived lack of demand, but the lack of demand is somewhat rooted in the belief that there are no courses available."*[97]

---

92 Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 14 Tachwedd 2024, paragraff 304
93 Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig (Saesneg yn unig)
94 Make UK, tystiolaeth ysgrifenedig (Saesneg yn unig)
95 Cyfoeth Naturiol Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig (Saesneg yn unig)
96 ColegauCymru, tystiolaeth ysgrifenedig (Saesneg yn unig)
97 Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig (Saesneg yn unig)

**104.** Dywedodd Renewable Energy Systems mai un o'r prif rwystrau i fynd i'r afael â'r sgiliau sydd eu hangen yw'r diffyg yn nifer y cyrsiau addysg bellach ac addysg uwch ar draws y wlad i hyfforddi a darparu'r cymwysterau angenrheidiol.[98]

**105.** Dywedodd Educ8:

> *"… we need our skills system to be more responsive and agile enabling programmes such as apprenticeship training frameworks to quickly respond to the needs of employers and the green economy."*[99]

**106.** Ychwanegodd y gall fframweithiau hefyd fod yn anhyblyg, sy'n gwbl groes i'r hyn sy'n ofynnol ar gyfer yr economi werdd.

**107.** Fodd bynnag, nododd Dr Alison Parken, ar y gwaith ymchwil pontio cyfartal a theg a gynhaliwyd, y cafwyd cryn dipyn o dystiolaeth gan sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach, sydd â diddordeb yn y maes hwn ond nad ydynt yn sicr o'r galw, a chred mai dyna'r broblem. Dywed, heb y galw, na fyddant yn cynnal y cyrsiau hyn.[100]

**108.** Nododd CITB Cymru mewn traciwr gweithgarwch CITB diweddar, fod 1 o bob 4 o'r rhai a ymatebodd yn nodi bod cynllun gwaith aneglur yn tanseilio buddsoddiad mewn sgiliau a hyfforddiant.[101]

**109.** Mewn tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor, dywedodd Llywodraeth Cymru ei bod wedi buddsoddi £30 miliwn yn ei rhaglen Cyfrif Dysgu Personol, i helpu pobl cyflogedig i uwchsgilio ac ailsgilio. Ychwanegodd:

> *"Mae rhan o'r rhaglen hon yn cynnwys buddsoddiad o £3.5m i lenwi bylchau sgiliau sero net ym maes adeiladu, ynni, gweithgynhyrchu a pheirianneg. Mae'r cap cyflog wedi'i ddileu ar gyfer yr elfen hon i ganiatáu i fwy o bobl gael mynediad at y sgiliau a'r cymwysterau sero net gwerthfawr hyn. Rydym hefyd wedi creu elfen benodol ar gyfer sgiliau sero net yn ein Rhaglen Sgiliau Hyblyg (FSP) er mwyn cefnogi cyflogwyr i uwchsgilio eu staff i ddiwallu anghenion economi'r dyfodol."*[102]

[98] Renewable Energy Systems, tystiolaeth ysgrifenedig (Saesneg yn unig)
[99] Educ8, tystiolaeth ysgrifenedig (Saesneg yn unig)
[100] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 21 Mawrth 2024, paragraff 384
[101] CITB Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig (Saesneg yn unig)
[102] Llywodraeth Cymru, papur tystiolaeth

## Denu a chadw talent pobl ifanc yng Nghymru

**110.** Dywedodd y Sefydliad Materion Cymreig fod angen polisi a chyllid clir, sy'n cefnogi cenedlaethau iau i fanteisio ar gyfleoedd economaidd cyflogaeth o fewn yr economi werdd.[103]

**111.** Dywedodd RenewableUK Cymru mai'r prif bryderon ynghylch lefel yr her sgiliau yw denu talent newydd; annog pobl ifanc i'r diwydiant; a chadw gafael ar raddedigion. Ychwanegodd fod diffyg gwybodaeth leol ac arweiniad gyrfaol ymhlith myfyrwyr oedran ysgol a phobl oedran gweithio.[104]

**112.** Nododd Ynni Cymunedol Cymru bwysigrwydd datblygiad proffesiynol parhaus i athrawon, gan ddweud ei bod yn bwysig rhoi ymdeimlad gwirioneddol o beth yw economi werdd a sut beth fydd y farchnad lafur werdd yn y dyfodol, fel y gallant drosglwyddo'r weledigaeth honno i bobl ifanc a'u hannog i ddilyn y llwybrau hyfforddi cywir[105]

### Cyngor ar yrfaoedd

**113.** Soniodd Ynni Cymunedol Cymru am wneud cyflogaeth yn y maes yn fwy deniadol ac annog pobl ifanc i ystyried gyrfa yn y sector gwyrdd. Ychwanegodd mai ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf ddylai fod y nod a dywedodd mai'r unig ffordd o wneud hynny yw rhoi gwell dealltwriaeth i'r athrawon o'r sector a'r potensial i'r dyfodol.[106]

**114.** Cred Uchelgais Gogledd Cymru fod rôl ysgolion cynradd ac uwchradd, addysg bellach, addysg uwch a darparwyr prentisiaethau yn "arfogi pobl ifanc â'r sgiliau gwyrdd sydd eu hangen ar gyflogwyr yn hanfodol."[107]

### Hyder mewn swyddi a gyrfaoedd yn y dyfodol

**115.** Roedd Educ8 o'r farn bod pobl ifanc yn malio am y blaned, ac yn malio am genedlaethau'r dyfodol, ac y byddai'r cyfleoedd sy'n cael eu cyflwyno gan economi gwyrdd yn cynnig llwybrau gyrfa hirdymor iddynt, ac yn rhywbeth a fyddai'n ddeniadol iddynt. Fodd bynnag, ychwanegodd fod rhywfaint o ansicrwydd pan fydd rhywbeth yn cael y label 'gwyrdd'.[108]

[103] Y Sefydliad Materion Cymreig, tystiolaeth ysgrifenedig (Saesneg yn unig)
[104] RenewableUK Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig (Saesneg yn unig)
[105] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 21 Mawrth 2024, paragraff 251
[106] Ynni Cymunedol Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig (Saesneg yn unig)
[107] Uchelgais Gogledd Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig
[108] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 9 Mai 2024, paragraff 483

**116.** Amlygodd Coleg Sir Benfro y broblem o ran sgiliau'n gadael Sir Benfro, sydd wedi bod yn broblem am gyfnod hir, a soniodd fod mwy o gyflogwyr yn amharod i gyflogi prentisiaid ifanc gan na allant warantu y byddant yn gallu cael y gwaith hwnnw yn Sir Benfro dros gyfnod y brentisiaeth. Rhybuddiodd:

> *"It would be sad to think that our young people haven't got those opportunities quite simply because we can't tell them when the jobs are going to be available."*[109]

**117.** Dywedodd M-Sparc fod diffyg ymwybyddiaeth o argaeledd a mathau o swyddi gwyrdd, a chred llawer o bobl ifanc fod yn rhaid iddynt adael gogledd Cymru i ddod o hyd i swyddi sy'n talu'n dda, a fydd yn gwneud y bwlch sgiliau yn fwy anodd i'w reoli.[110]

**118.** Soniodd sawl tyst am yr heriau o gyfleu gwybodaeth am swyddi gwyrdd. Dywedodd M-Sparc wrth y Pwyllgor ei bod weithiau'n anodd nodi'n benodol beth yw'r swyddi hynny, gan fod yn rhaid parhau i siarad mewn ffordd ddamcaniaethol lawer o'r amser, ac felly mae'n heriol annog pobl ifanc.[111] Roedd Coleg Sir Benfro yn cytuno:

> *"… it is quite hard to encourage young people to think about the jobs that may be available in five years' time, because they can't see them, they can't think—you know, there's nothing tangible there at this point in time."*[112]

**119.** Awgrymodd ColegauCymru:

> *"I think we're in a really tricky situation, because we're trying to communicate green skills, green jobs. Young people don't understand what that means."*[113]

**120.** Clywodd y Pwyllgor rai enghreifftiau cadarnhaol o gamau i dynnu sylw at gyfleoedd gyrfa gwyrdd ac adeiladu llwybrau i bobl ifanc ar Ynys Môn. Dywedodd M-Sparc wrth yr Aelodau fod naratif cyffredin yng ngogledd Cymru o bobl yn gorfod gadael i gael swyddi sy'n talu'n dda. Fodd bynnag, dywedodd:

---

[109] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 13 Mehefin 2024, paragraff 83
[110] M-Sparc, tystiolaeth ysgrifenedig (Saesneg yn unig)
[111] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 22 Mai 2024, paragraff 198
[112] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 13 Mehefin 2024, paragraff 53
[113] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 9 Mai 2024, paragraff 479

> *"We are doing a lot to try and combat that. Menter Môn do a great job, Ambition North Wales and the local HE, FEs and M-Sparc, going out into schools to really encourage children and young people that there are opportunities in north Wales and that studying STEM subjects will lead to a job—that there are jobs here."*[114]

**121.** Dywedodd Menter Môn wrth yr Aelodau ynghylch Morlais, y prosiect ynni ffrwd llanw:

> *"… mae'r megawatts bron yn eilradd i geisio datblygu cyfleoedd yn yr ardal. Mae'r megawatts yn fonws, by-product, bron. Mae ynni gwyrdd yn wych, ond rydyn ni'n trio cynyddu cyfleoedd i bobl yn yr ardal, bywiogi'r ardal. Felly, mae yna bwyslais mawr yn y cynllun ar hynny, er mwyn gwneud y mwyaf o'r cyfle. Ac mae'n dechrau o'r cynradd. A hefyd, beth sy'n bwysig ydy, yn wahanol i gwmnïau sy'n dod i mewn o du allan, yn Morlais mae yna dîm o 20—maen nhw i gyd yn bobl leol, maen nhw i gyd yn Gymry Cymraeg, ac maen nhw'n mynd mewn i ysgolion i sôn am eu profiadau nhw o fewn y sector. Mae hynny hefyd yn gwneud gwahaniaeth."*[115]

**122.** Amlygodd Ynni Cymunedol Cymru hefyd y gwaith a wnaed gan Croeso i'n Coedwig yn Nhreherbert.

[114] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 22 Mai 2024, paragraff 198
[115] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 22 Mai 2024, paragraff 205

**Astudiaeth achos – Croeso i'n Coedwig**




***Ffigur 2: Darparwyd y llun gan Ynni Cymunedol Cymru***

Mae Croeso i'n Coedwig yn sefydliad datblygu sy'n eiddo i'r aelodau ac sydd wedi'i leoli yn Nhreherbert. Mae ei waith yn cynnwys llesiant cymunedol, gwytnwch bwyd a stiwardiaeth ar raddfa tirwedd o adnoddau naturiol coetir.

Y llynedd, roedd Croeso i'n Coedwig yn gallu cynnig contractau newydd i dri o'u gwirfoddolwyr a oedd wedi dilyn cyrsiau NVQ lefel 2 mewn garddwriaeth adfywiol a phrysgoedio a chrefftau coed gwyrdd yn y sefydliad partner Coleg y Mynyddoedd Duon. Diolch i uwchsgilio, mae Croeso i'n Coedwig wedi llwyddo i gynyddu nifer y swyddi cyflogedig y gall eu cynnig tra'n gwella CVs ac yn adeiladu proffil sgiliau ei wirfoddolwyr, yn ogystal â gwella cydbwysedd bywyd a gwaith. Mae un arall o'u gwirfoddolwyr wedi bod yn cynnal dosbarthiadau ioga a chyrsiau llesiant eraill yn y goedwig, gan gynnwys gweithio gyda phobl sy'n gwella ar ôl bod yn gaeth i gyffuriau neu alcohol, ac mae wedi lansio ei chwmni ei hun.[116]

**123.** Tynnodd yr Ysgrifennydd Cabinet ar y pryd, Jeremy Miles AS, sylw at waith sy'n cael ei wneud i gyfleu gwybodaeth am yrfaoedd posibl yn y dyfodol, gan gynnwys y canlynol:

[116] Darparwyd yr astudiaeth achos gan Ynni Cymunedol Cymru

- Mae Gyrfa Cymru wedi bod yn gweithio ar gyfres o astudiaethau achos yn dangos pobl ifanc yn symud ymlaen i swyddi gwyrdd. Mae'n datblygu tudalen we 'Swyddi'r Dyfodol yng Nghymru', a fydd yn rhoi rhagor o fanylion gronynnog ochr yn ochr â rhywfaint o hynny, a bydd wedyn yn defnyddio'r adnoddau hynny pan fydd yn mynd i ysgolion a phan fydd y cynghorwyr gyrfaoedd yn rhoi'r cyngor penodol hwnnw.
- Mae'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol wedi bod yn gweithio ar rywfaint o ymgysylltu ar lefel ysgol ar gyfer cyflogwyr. Er enghraifft, yn ysgolion Sir Ddinbych, bu rhai ffyrdd da o integreiddio gyrfaoedd adnewyddadwy i gyfleoedd cwricwlwm.
- Ar lefel Addysg Bellach, mae Coleg Caerdydd a'r Fro wedi bod yn gwahodd cwmnïau peirianneg ac adeiladu i mewn i siarad am yr hyn y mae sero net yn ei olygu yn y sectorau hynny, fel y gallant ddod â rhai o'r cyfleoedd yn fyw i fyfyrwyr ar lefel Addysg Bellach hefyd.[117]

## Ein barn ni

Mae sicrhau bod gan ein gweithlu y sgiliau cywir yn mynd i fod yn un o'r prif amcanion y mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru ei chyflawni os ydym am fanteisio'n llawn ar y newid i economi werdd. Mae gweddill yr adroddiad hwn yn tynnu sylw'n rheolaidd at y swyddi newydd medrus, o ansawdd uchel yr ydym yn gobeithio y bydd economi werdd yn eu darparu inni.

Fodd bynnag, os nad oes gan weithlu Cymru y sgiliau i gyflawni'r swyddi hynny, bydd busnes yn edrych yn rhywle arall a bydd y swyddi hynny'n cael eu creu yno. O'r herwydd, mae'n bwysig bod gan Lywodraeth Cymru ddealltwriaeth o sgiliau ein gweithlu presennol, yr angen yn y dyfodol a sut y gallwn sicrhau bod y ddwy elfen hynny'n cwrdd ar adeg briodol.

Gwnaethom ganfod, o leiaf gan rai sectorau, fod bwlch sgiliau a phrinder sgiliau yng Nghymru. Bwlch rhwng yr hyn sydd ei angen a'r hyn sydd gennym. Rhaid i Lywodraeth Cymru weithio gyda diwydiant a darparwyr sgiliau i sicrhau bod y sgiliau yno i annog buddsoddiad yng Nghymru a chreu swyddi medrus iawn sy'n talu'n dda.

Mae Cymru yn genedl sy'n heneiddio. Bydd yr economi werdd yn cyflwyno cyfleoedd cyffrous i bobl ifanc yng Nghymru. Gallai'r cyfleoedd hyn roi'r rheswm a'r gallu i Gymry ifanc aros yn eu cymunedau, ac hefyd ddenu pobl ifanc o fannau eraill i ddod i fyw a gweithio yma. Rhaid i Lywodraeth Cymru achub ar y

[117] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 26 Mehefin 2024, paragraffau 184-186

cyfle hwn i sicrhau bod pobl sy'n cael eu haddysgu yng Nghymru yn cael arweiniad gyrfaoedd priodol i'w galluogi i fanteisio ar swyddi'r economi werdd.

**Argymhelliad 12.** Dylai Llywodraeth Cymru gynnal, neu gomisiynu, archwiliad sgiliau i ddeall yn well pa ddarpariaeth sgiliau sydd ar gael ar hyn o bryd, a ble mae bylchau yn y ddarpariaeth. Dylai hyn sefydlu pa sgiliau sydd eu hangen, nawr ac yn y blynyddoedd i ddod, a ble y mae eu hangen, a ble y bydd eu hangen i fynd i'r afael â phrinder sgiliau. Yn dilyn yr archwiliad sgiliau, dylai Llywodraeth Cymru lunio adroddiad yn egluro'n glir beth sydd ei angen erbyn pryd. Dylid diweddaru'r adroddiad hwn yn rheolaidd i alluogi darparwyr sgiliau a diwydiant i gydweithio i ddarparu'r sgiliau sydd eu hangen. Yn dilyn yr archwiliad sgiliau a argymhellir yn yr adroddiad hwn, dylai Llywodraeth Cymru lunio adroddiad yn egluro'n glir beth sydd ei angen erbyn pryd. Dylid diweddaru'r adroddiad hwn yn rheolaidd i alluogi darparwyr sgiliau a diwydiant i gydweithio i ddarparu'r sgiliau sydd eu hangen. Dylai Llywodraeth Cymru fynd i'r afael â'r diffyg cyfatebiaeth canfyddedig rhwng y system addysg a sgiliau a'r hyn sydd ei angen ar y diwydiant, gan gynnwys a all y system bresennol gyflawni ar gyfer uwchsgilio ac ailsgilio'r gweithlu presennol.

**Argymhelliad 13.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y bydd yn gweithio gyda Gyrfa Cymru i sicrhau bod cyngor gyrfaoedd yn cael ei integreiddio'n well ar hyd taith addysg disgybl i sicrhau bod pobl ifanc yn ymwybodol o'r cyfleoedd yng Nghymru a geir yn sgil trosglwyddo i economi wyrddach.

# 7. Ariannu'r newid sero net

"The Welsh Government cannot achieve net zero without constructive partnership working with the private sector."[118]

## Blaenoriaethu buddsoddiad mewn economi wyrddach

**124.** Awgrymodd tystion fod buddsoddi yn un o'r elfennau allweddol y mae angen mynd i'r afael ag ef er mwyn sicrhau sylfaen ar gyfer cefnogi'r economi werdd.

**125.** Galwodd Diwydiant Sero Net Cymru ar i'r sectorau cyhoeddus a phreifat sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i gyd-fynd ag uchelgais y llywodraeth, gan nodi:

> *"I think we need to make sure that we have resource available in Wales, between the private and public sector, that matches our ambition, because ambition at the moment is this high – we talk about it, and that's the promise to the communities surrounding us – but the resource that we have available is this low."*[119]

**126.** Amlygodd Banc Datblygu Cymru mai sero net yw'r "genhadaeth economaidd unigol fwyaf yng Nghymru", ac y bydd angen cynyddu buddsoddiad mewn datgarboneiddio yn ystod cyfnod y gyllideb garbon nesaf o 2026-30. Galwodd ar Lywodraeth Cymru i roi blaenoriaeth i ddatblygu strategaeth buddsoddi sero net hirdymor i alluogi a manteisio ar y buddsoddiad ychwanegol o £63 biliwn sydd ei angen i gyflawni sero net erbyn 2050.

**127.** Dywedodd Banc Datblygu Cymru y dylai strategaeth "gyfleu'r genhadaeth yn glir (h.y. y bwlch cyfalaf Sero Net fesul sector), ysgogwyr rheoleiddio ar draws sectorau (e.e. dirwyn boeleri nwy i ben yn raddol), cyfleusterau ar gyfer buddsoddi (e.e. cronfeydd, gwasanaethau cynghori) a pholisïau ar gyfer y dyfodol."[120]

[118] Y Sefydliad Materion Cymreig, tystiolaeth ysgrifenedig (Saesneg yn unig)
[119] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 21 Mawrth 2024, paragraff 183
[120] Banc Datblygu Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig

**128.** Cafodd y Pwyllgor wybod hefyd y byddai cynllun clir a rhaglen o brosiectau yn galluogi hyder y buddsoddwyr.[121] Dywedodd Blue Gem Wind wrth y Pwyllgor fod rhaglen yn hollbwysig i ddatblygwyr, a'i bod yn hollbwysig denu cwmnïau rhyngwladol byd-eang i'r rhanbarth.[122] Dywedodd Banc Seilwaith y DU (y Gronfa Gyfoeth Wladol bellach):

> *"... the clearer the strategy, the clearer the milestones that the Government wants to achieve, the better able we are to mobilise around that and to help private investors have the confidence and think about how they might be able to bring in finance to help the Government achieve those aims."*[123]

## Trosoledd cyllid y sector preifat

**129.** Dywedodd y Sefydliad Materion Cymreig wrth y Pwyllgor oherwydd diffyg ysgogiadau cyllidol fod angen i Gymru weithio fwyfwy gyda'r sector preifat i gyflawni prosiectau sy'n datgarboneiddio ei heconomi yn gyffredinol.[124]

**130.** Mae nifer o dystion wedi dweud wrth y Pwyllgor y dylai Llywodraeth Cymru flaenoriaethu buddsoddi sy'n trosoli cyllid y sector preifat. Dywedodd Uchelgais Gogledd Cymru wrth y Pwyllgor y "gall partneriaethau cyhoeddus-preifat helpu i rannu'r baich ariannol a denu buddsoddiad preifat mewn ynni adnewyddadwy, seilwaith cynaliadwy, a mentrau gwyrdd eraill."[125]

**131.** Awgrymodd Onward y dylid blaenoriaethu buddsoddi mewn meysydd lle mae'n amlwg bod bylchau yn yr hyn mae'r sector preifat yn barod i fuddsoddi ynddo ar hyn o bryd, a'r pethau y mae angen i'r sector cyhoeddus fuddsoddi ynddynt, er mwyn denu'r buddsoddiad hwnnw.[126]

**132.** Roedd RenewableUK o'r farn bod angen cydnabod rôl buddsoddiad preifat a'r hyn y mae hynny'n ei gynrychioli o ran buddion cymunedol, o ran cyfleoedd i wella bioamrywiaeth ac o ran datblygu busnesau bach a chanolig.[127]

**133.** Nododd y Ffederasiwn Busnesau Bach y byddai lefelau uwch o fuddsoddiad uniongyrchol o dramor yn helpu i ysgogi swm mawr o'r hyn y ceisir ei gyflawni, ond ychwanegodd, lle mae'r buddsoddiad hwnnw'n digwydd, fod angen gosod

[121] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 21 Mawrth 2024, paragraffau 108 a 114
[122] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 13 Mehefin 2024, paragraff 33
[123] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 22 Mai 2024, paragraff 13
[124] Y Sefydliad Materion Cymreig, tystiolaeth ysgrifenedig (Saesneg yn unig)
[125] Uchelgais Gogledd Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig
[126] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 21 Mawrth 2024, paragraff 447
[127] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 21 Mawrth 2024, paragraff 189

rhwymedigaethau clir tuag at adeiladu cadwyni cyflenwi busnesau bach a chanolig ar gyfer lefel galluoedd sgiliau uwch ac is sy'n cefnogi'r gwahanol fathau o arbenigedd sydd yn economi Cymru ar hyn o bryd.[128]

**134.** Mae Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn honni bod cyfle sylweddol i Lywodraeth Cymru weithio gydag awdurdodau lleol i gefnogi mathau arloesol o gyllid ar gyfer prosiectau datgarboneiddio lleol.[129]

## Gwneud y gorau o fuddsoddiad y sector cyhoeddus

**135.** Dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym:

> *"Mae cyfyngiadau cyllidebol yn golygu bod yn rhaid i ni feddwl a gweithredu'n ddoethach o ran sut rydym yn cefnogi diwydiant ac yn ysgogi buddsoddiad gan Lywodraeth y DU yn unol â'n blaenoriaethau. Mae angen i ni hefyd wneud defnydd hyd yn oed yn well o asedau fel cyfleuster Ymchwil Gweithgynhyrchu Uwch Cymru, sydd ar hyn o bryd yn gweithio ar nifer o fentrau i ddatgarboneiddio ein cadwyni cyflenwi ac a allai ehangu gweithrediadau i ddatblygu technoleg werdd.."*[130]

**136.** Dywedoddd Banc Datblygu Cymru fod "dyrannu elfen o gyllid nad yw'n ad-daladwy ochr yn ochr â chyllid ad-daladwy mewn cynnig hybrid yn ffordd gost-effeithiol a gwerth am arian o sicrhau'r effaith fwyaf posibl ar arian cyhoeddus". Awgrymodd y dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu cynlluniau peilot "profi a dysgu" y gellir eu huwchraddio.[131]

**137.** Tynnodd Onward sylw at y rôl y gall Banc Seilwaith y DU, sef y Gronfa Gyfoeth Wladol bellach, ei chwarae wrth ychwanegu at gronfeydd Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol, gan nodi:

> *"Given budgetary constraints, local government could look to UKIB for capital to support environmental projects. And the Welsh Government should engage with the bank to provide financing to*

[128] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 21 Mawrth 2024, paragraff 185
[129] Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig (Saesneg yn unig)
[130] Llywodraeth Cymru, papur tystiolaeth
[131] Banc Datblygu Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig

> *companies where it does not have the capacity to offer direct support."*[132]

**138.** Tynnodd Sarah Jones AS, Gweinidog Gwladol dros Ddiwydiant yn Llywodraeth y DU, sylw at y Gronfa Gyfoeth Wladol newydd, y dywedodd y byddai'n gatalydd i fuddsoddiad preifat i gefnogi amcanion y Llywodraeth ar gyfer twf buddsoddiad a sero net, tra'n cynhyrchu elw i'r trethdalwr. Ychwanegodd:

> *"It will play a pivotal role in the government's industrial strategy and will simplify the UK's fragmented landscape of support for businesses and investors, aligning critical institutions like the UK Infrastructure Bank and British Business Bank to create a single coherent offer for businesses and a compelling proposition for investors."*[133]

**139.** Nododd papur ysgrifenedig Llywodraeth Cymru fod Cyd-bwyllgorau Corfforaethol, awdurdodau lleol, y GIG a rhannau eraill o'r sector cyhoeddus yn caffael nwyddau a gwasanaethau o'r economi werdd. Ychwanegodd fod Llywodraeth Cymru yn ystyried "sut y gellid gwneud y caffaeliadau hyn yn fwy effeithlon ac yn fwy strategol", ac y bydd hyn yn "darparu gwell gwerth am arian ac yn helpu'r sector cyhoeddus i gefnogi cadwyni cyflenwi'r economi werdd yng Nghymru.[134]

**140.** O ran dulliau arloesol, dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym:

> *"Mae ein gwaith ar ynni yn blaenoriaethu cadw buddsoddiad a gwerth o fuddsoddiad yng Nghymru. Rydym eisoes yn arloesi drwy Trydan Gwyrdd, Ynni Cymru a'r Gronfa Ynni Lleol. Cymru yw'r unig ran o'r DU sydd â datblygwr ynni adnewyddadwy sector cyhoeddus. Mae Trydan Gwyrdd Cymru wedi'i sefydlu i arwain prosiectau ynni adnewyddadwy newydd ar dir cyhoeddus yng Nghymru. Bydd y dull hwn yn sicrhau bod Cymru'n elwa'n uniongyrchol ar ddatblygu prosiectau ynni adnewyddadwy newydd gydag incwm o ddatblygiadau yn dod yn ôl i Lywodraeth Cymru. Drwy Trydan Gwyrdd Cymru byddwn hefyd yn ceisio sicrhau lefel uwch o fudd uniongyrchol*

[132] Onward, tystiolaeth ysgrifenedig (Saesneg yn unig)
[133] Llythyr gan y Gweinidog Gwladol dros Ddiwydiant, Llywodraeth y DU, 4 Medi 2024 (Saesneg yn unig)
[134] Llywodraeth Cymru, papur tystiolaeth

> *i gymunedau sy'n cefnogi swyddi gwyrdd lleol a gwerth amgylcheddol a chymdeithasol ehangach."*[135]

## Ein barn ni

Clywsom dystiolaeth gymhellol o'r angen i Lywodraeth Cymru flaenoriaethu buddsoddi yn y newid i sero net, ac rydym yn falch o glywed bod swyddi gwyrdd a thwf yn un o bedwar maes blaenoriaeth y Prif Weinidog. Fodd bynnag, mae angen inni weld rhagor o fanylion am sut y cyflawnir y flaenoriaeth hon, er enghraifft drwy ddatblygu strategaeth fuddsoddi sero net hirdymor.

Bydd gweithio gyda phartneriaid i ddefnyddio pob ffynhonnell bosibl o gyllid i gefnogi'r newid i sero net yn hollbwysig. Mae nifer o gamau y mae angen i Lywodraeth Cymru eu cymryd yma, gan gynnwys gweithio gyda Banc Datblygu Cymru fel y gall chwarae rhan well yn y maes hwn, buddsoddi ar y cyd â chyrff eraill yn y sector cyhoeddus, a throsoli buddsoddiad gan y sector preifat.

Rydym yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag adnoddau cyfyngedig, ond mae'n allweddol i Lywodraeth Cymru fabwysiadu dull hirdymor ac arloesol o fuddsoddi. Roedd cytundeb clir ymhlith ein tystion o bwysigrwydd strategaeth glir a llif gweladwy o brosiectau, a sut y gall hyn ddylanwadu ar lefel y buddsoddiad y gellir ei gyflawni. Cafodd y mater hwnnw ei drafod yn fanylach yn adran Blaenoriaethau Ynni Adnewyddadwy yr adroddiad hwn.

**Argymhelliad 14.** Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu strategaeth buddsoddi sero net hirdymor.

**Argymhelliad 15.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Banc Datblygu Cymru i nodi'r camau y dylai'r Banc eu cymryd i chwarae mwy o ran wrth gyfrannu at yr hyn a alwodd y Banc y "genhadaeth economaidd unigol fwyaf yng Nghymru" – sef cyflawni sero net. Dylai hyn gynnwys cymorth ar gyfer buddsoddiad y sector preifat a darpariaeth ynni cymunedol.

**Argymhelliad 16.** Dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio pob ysgogiad posibl i flaenoriaethu buddsoddiad yn y newid i economi wyrddach, gan gynnwys gweithio gyda phartneriaid fel Llywodraeth y DU, y Gronfa Gyfoeth Wladol ac awdurdodau lleol i fuddsoddi ar y cyd mewn prosiectau lle bo'n briodol. Dylai gwariant ganolbwyntio ar gyfleoedd i drosoli buddsoddiad gan y sector preifat a llenwi bylchau buddsoddi posibl.

[135] Llywodraeth Cymru, papur tystiolaeth

# Atodiad 1: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar.

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau o'r sesiynau tystiolaeth lafar ar dudalen we'r Pwyllgor.

| Dyddiad | Enw a sefydliad |
|---|---|
| **21 Mawrth 2024** | **Felix Milbank, Dirprwy Bennaeth Polisi,** Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru<br>**Jessica Hooper, Cyfarwyddwr,** RenewableUK Cymru<br>**Ben Burggraaf, Prif Swyddog Gweithredol,** Diwydiant Sero Net Cymru<br>**Tom Hill, Rheolwr Rhaglen Ynni'r Môr,** Ynni Morol Cymru<br>**Sarah Evans, Cyfarwyddwr Twf Busnes ac Ymgynghoriaeth,** Cwmpas<br>**Benedict Ferguson, Cyfarwyddwr Cydweithredol,** Ynni Cymundedol Cymru<br>**Derek Walker,** Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru<br>**Dr Alison Parken,** Prifysgol Caerdydd<br>**Dr Jack Price, Canolfan Polisi,** Cyhoeddus Cymru<br>**Ned Hammond, Pennaeth Ynni a'r Amgylchedd,** Onward UK |
| **9 Mai 2024** | **James Powell, Cyfarwyddwr Marchnata a Chyfathrebu,** Educ8<br>**Jemma Parsons, Pennaeth yr Academi,** Sgiliau Gwyrdd<br>**Matt Rees, Is-brifathro – Dysgu Seiliedig ar Waith a Gweithgarwch Masnachol, Coleg Penybont, yn cynrychioli** ColegauCymru |
| **22 Mai 2024** | **Kate McGavin, Prif Swyddog Polisi a Strategaeth,** Banc Seilwaith y DU |

| Dyddiad | Enw a sefydliad |
|---|---|
| | **Andy Regan, Rheolwr Cenhadaeth, Cenhadaeth Dyfodol Cynaliadwy,**<br>Nesta<br>**Dafydd Gruffydd, Rheolwr Gyfarwyddwr,**<br>Menter Môn<br>**Dr Debbie Jones, Rheolwr Arloesi Carbon Isel,**<br>M-Sparc<br>**Robyn Lovelock, Rheolwr Rhaglen y Cynllun Twf,**<br>Uchelgais Gogledd Cymru |
| **13 Mehefin 2024** | **David Jones, Rheolwr Rhanddeiliaid,**<br>Blue Gem Wind<br>**Wendy Weber, Pennaeth yr Amgylchedd Adeiledig,**<br>Coleg Sir Benfro<br>**Peter Hughes, Ysgrifennydd Rhanbarthol Unite Cymru,**<br>Undeb Unite<br>**Jane Lancastle, Ysgrifennydd Cynorthwyol,**<br>Prospect Cymru<br>**Nisreen Mansour, Swyddog Polisi,**<br>Wales TUC |
| **26 Mehefin 2024** | **Jeremy Miles MS, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg,**<br>Llywodraeth Cymru<br>**Aine Gawthorpe, Dirprwy Gyfarwyddwr, yr Is-adran Trawsnewid Diwydiannol ac Economi Sylfaenol,**<br>Llywodraeth Cymru<br>**Helen John, Dirprwy Gyfarwyddwr, Prosiectau – Rheolaethau'r Ffin a'r Cynllun Cofrestri a Thrwyddedu Statudol,**<br>Llywodraeth Cymru<br>**Neil Surman, Dirprwy Gyfarddwr - Sgiliau,**<br>Llywodraeth Cymru |

# Atodiad 2: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Gellir gweld yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad a gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol ar wefan y Pwyllgor.

| Cyfeirnod | Sefydliad |
|---|---|
| **GE01** | Anabledd Dysgu Cymru |
| **GE02** | RenewableUK Cymru |
| **GE03** | Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru |
| **GE04** | Make UK |
| **GE05** | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| **GE06** | Grŵp Educ8 |
| **GE07** | CITB Cymru |
| **GE08** | Cyfeillion y Ddaear Cymru |
| **GE09** | Banc Datblygu Cymru |
| **GE10** | Y Gymdeithas Cadwraeth Forol |
| **GE11** | Y Sefydliad Safonau Prydeinig |
| **GE12** | Renewable Energy Systems |
| **GE13** | Wind2 |
| **GE14** | Canolfan Arloesi ac Adfywio Ranbarthol yn Ysgol Reoli Caerdydd, Prifysgol Metropolitan Caerdydd |
| **GE15** | Y Sefydliad Materion Cymreig |
| **GE16** | ColegauCymru |
| **GE17** | Floventis Energy |
| **GE18** | M-Sparc |
| **GE19** | Western Gateway |
| **GE20** | Prifysgolion Cymru |
| **GE21** | Ynni Cymunedol Cymru |

| Cyfeirnod | Sefydliad |
|---|---|
| **GE22** | GW4 Alliance |
| **GE23** | Y Sefydliad Rheolaeth Siartredig |
| **GE24** | RWE |
| **GE25** | Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol |
| **GE26** | Diwydiant Sero Net Cymru |
| **GE27** | Oxfam Cymru |
| **GE28** | Y Gymdeithas Gemeg Frenhinol |
| **GE29** | Comisiynydd y Gymraeg |
| **GE30** | Cwmpas |
| **GE31** | Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru |
| **GE32** | Vattenfall |
| **GE33** | RSPB Cymru |
| **GE34** | Cynhadledd Esgobion Catholig Cymru a Lloegr |
| **GE35** | Onward |
| **GE36** | Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru |
| **GE37** | Statkraft UK |
| **GE38** | Uchelgais Gogledd Cymru |
| **GE39** | Cyngor Sir Ynys Môn |

## Gwybodaeth ychwanegol

| Sefydliad |
|---|
| Prospect Cymru |
| Ystad y Goron |
| Y Gymdeithas Crefftau Garddwriaethol |
| Gweinidog Gwladol, yr Adran dros Ddiogelwch Ynni a Sero Net, a'r Adran Busnes a Masnach, Llywodraeth y DU |